This document is available in English

AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

NORTH WALES FIRE AND RESCUE AUTHORITY

Bydd cyfarfod o'r **PWYLLGOR ARCHWILIO** yn cael ei gynnal
DDYDD LLUN 15 MEDI 2025 am **09.30 o'r gloch**
yn rhithiol **drwy Zoom**

Yr eiddoch yn gywir,
Gareth Owens
Clerc

AGENDA

1. **Ymddiheuriadau**

2. **Datganiadau o Fuddiant**

3. **Hysbysiad o Faterion Brys**
   Hysbysiad o'r eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel mater o frys yn unol ag Adran 100B (4) Deddf Llywodraeth Leol, 1972.

4. **Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Mehefin 2025**

5. **Materion yn Codi**

6. **Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ynghylch y Trefniadau Llywodraethiant ar gyfer Gwasanaethau Tân ac Achub yng Nghymru, er gwybodaeth**

7. **Diweddariad Rheoli Trysorlys Ch1 2025-26 er gwybodaeth**

8. **Ardystiad ar gydymffurfio â gofynion asesu perfformiad Mesur Llywodraeth Leol 2009 yn 2025/26 er gwybodaeth**

9. **Deddf Troseddau Economaidd a Thryloywder Corfforaethol 2023 er gwybodaeth**

10. **Rheoliadau Ariannol wedi'u Diweddaru i'w cymeradwyo**

11. **Adroddiad Archwilio Cymru 'Diffodd Tanau'r Dyfodol' i'w gymeradwyo**

Materion Brys
Ystyried unrhyw eitemau y penderfynodd y Cadeirydd eu bod yn eitemau brys (yn unol ag Adran 100B (4) Deddf Llywodraeth Leol, 1972) ac y datganwyd eu pwysigrwydd o dan eitem 3 uchod.

RHAN II
Yn unol ag Adran 100A (4) Deddf Llywodraeth Leol, 1972, argymhellir bod y Wasg a'r Cyhoedd yn cael eu heithrio o'r cyfarfod wrth ystyried yr eitem fusnes/eitemau busnes a ganlyn oherwydd ei bod yn debygol y byddai gwybodaeth wedi'i heithrio yn cael ei datgelu iddynt fel sydd wedi'i diffinio ym Mharagraff(au) 12 i 18 Rhan 4 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972.

12. **Adroddiad Cynnydd Archwilio Mewnol 2025-26 ac Olrhain Argymhellion i'w cymeradwyo**

13. **Contract Perfect Circle ar gyfer y Ganolfan Hyfforddi er gwybodaeth**

AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU
Y PWYLLGOR ARCHWILIO

Cofnodion **Pwyllgor Archwilio** Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a gynhaliwyd ddydd Llun 16 Mehefin 2025 yn rhithiol dros Zoom. Dechreuodd y cyfarfod am 09.30 o'r gloch.

Cynghorydd	**Yn cynrychioli**
Mark Young (Cadeirydd)	Cyngor Sir Ddinbych
Bryan Apsley	Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
Tina Claydon	Cyngor Sir y Fflint
Ann Davies	Cyngor Sir Ddinbych
Sharon Doleman	Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
John Brynmor Hughes	Cyngor Gwynedd
Gareth R Jones	Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Marc Jones	Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
Arwyn Herald Roberts	Cyngor Gwynedd
Austin Roberts	Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Hefyd yn bresennol:

Helen MacArthur	Prif Swyddog Tân Cynorthwyol
Justin Evans	Prif Swyddog Tân Cynorthwyol
Anthony Jones	Prif Swyddog Tân Cynorthwyol
Elgan W Roberts	Pennaeth Cyllid a Chaffael
Dafydd Edwards	Trysorydd
Gareth Owens	Swyddog Monitro
Matthew Powel	Swyddog Monitro Cynorthwyol
Angharad Ellis	MIAA
Kieran Vickery	Archwilio Cymru
Carwyn Rees	Archwilio Cymru
Timothy Buckle	Archwilio Cymru
Steve Morris	Pennaeth TGCh
Marian Lloyd Rees	Cyfieithydd
Lisa Allington	Cynorthwyydd Gweithredol – cofnodydd

1.0 YMDDIHEURIADAU

Cynghorydd	**Yn cynrychioli**
Beverley Parry-Jones	Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
Gwynfor Owen (Dirprwy Gadeirydd)	Cyngor Gwynedd

YN ABSENNOL

Marion Bateman	Cyngor Sir y Fflint
Jeff Evans	Cyngor Sir Ynys Môn

2.0 DATGANIADAU O FUDDIANT

2.1 Nid oedd datganiadau o fuddiant i'w cofnodi.

3.0 HYSBYSIAD O FATERION BRYS

3.1 Ni chyflwynwyd unrhyw hysbysiadau o faterion brys.

4.0 COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 17 MAWRTH 2025

4.1 Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Mawrth 2025 i'w cymeradwyo. Cynigiwyd eu bod yn gofnod gwir a chywir o'r trafodion. Eiliwyd hyn a'i basio gyda phawb o blaid.

4.2 PENDERFYNWYD:

i) cymeradwyo'r cofnodion fel cofnod gwir a chywir o'r cyfarfodydd a gynhaliwyd, gan nodi'r gwelliannau uchod.

5.0 MATERION YN CODI

5.1 Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

6.0 BARN AC ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PENNAETH ARCHWILIO MEWNOL 2024/25

6.1 Croesawyd Angharad Ellis o MIAA i'r cyfarfod a chyflwynodd Farn ac Adroddiad Blynyddol y Pennaeth Archwilio Mewnol ar gyfer 2024/25, adroddiad a oedd yn ofynnol yn flynyddol i alluogi Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) i gynnal adolygiad o effeithiolrwydd ei system Rheolaeth Fewnol.

6.2 Nodwyd bod Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus 2017 CIPFA yn ei gwneud yn ofynnol i'r Pennaeth Archwilio Mewnol roi sicrwydd i'r Pwyllgor Archwilio ar y system gyfan o reolaeth fewnol, gan gynnwys digonolrwydd y trefniadau rheoli risg a llywodraethiant corfforaethol. Roedd yr adroddiad yn dadansoddi gwaith y Gwasanaeth Archwilio Mewnol ar gyfer 2024/25 ac yn cynnwys y datganiad sicrwydd yn seiliedig ar waith Archwilio Mewnol yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2025.

6.3 Cadarnhaodd Angharad Ellis fod lefel gyffredinol y sicrwydd ar y rheolaethau mewnol yn sylweddol. Tynnwyd sylw at y ffaith bod sicrwydd cyfyngedig wedi'i roi mewn perthynas â'r trefniadau rheoli risg a gofynnodd yr Aelodau a oedd cynllun i gyflawni gwelliannau yn y maes hwn. Ymatebodd Angharad fod argymhellion wedi'u cytuno a bod trefniadau dilynol ar waith.

6.4 PENDERFYNWYD:

i) nodi cynnwys Adroddiad Blynyddol y Pennaeth Archwilio a Chaffael a'r 'farn' gyffredinol ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd fframwaith llywodraethiant, rheoli risg a rheolaeth yr Awdurdod

7.0 ADRODDIAD CYNNYDD ARCHWILIO MEWNOL MEHEFIN 2025

7.1 Gwahoddwyd Angharad Ellis i gyflwyno'r Adroddiad Cynnydd Archwilio Mewnol Mehefin 2025, a'i bwrpas oedd rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am y gwaith a wnaed gan ddarparwyr archwilio mewnol yr Awdurdod, MIAA, ar gyfer blwyddyn ariannol 2024/25 ac ar gyfer y cyfnod hyd at 31 Mai 2025.

7.2 Nododd y Cadeirydd ei fod wedi bod mewn cyfarfod gyda Swyddogion yn ddiweddar ynghylch cynnwys yr adroddiad hwn a'i fod yn teimlo bod rhywfaint o waith i'w wneud o hyd mewn perthynas â risg. Ymatebodd PSTC Jones fod y cynnydd o ran rheoli risg yn parhau a bod cydweithrediad agos ag MIAA yn parhau.

7.3 Gofynnodd Aelod a ddylid ystyried symud y risg seiberddiogelwch ymlaen gan ei bod yn ymddangos yn gyffredin yn fyd-eang ar hyn o bryd. Ymatebodd Angharad fod adolygiad pellach o seiberddiogelwch wedi'i drefnu ar gyfer 2026/27, a bod archwiliad dwfn wedi digwydd fel rhan o gynllun 2024/25 gyda gwaith dilynol ar yr argymhellion i'w wneud eleni i sicrhau eu bod wedi eu cwblhau. Dyma hefyd y risg gyntaf ar y Gofrestr Risg Strategol.

7.4 Cadarnhaodd PSTC MacArthur ymhellach fod gwaith yn parhau tuag at y Fframwaith Sicrwydd Seiber, model sector cyhoeddus Llywodraeth Cymru, ond teimlai y gallai fod sesiwn ar wahân i ddarparu gwybodaeth i'r Aelodau am drefniadau, risgiau allweddol, a'r cyfeiriad y mae gwaith yn digwydd ynddo. Cytunwyd y byddai'r Aelodau'n cael eu diweddaru ymhellach yn y dyfodol, naill ai fel eitem Rhan II neu mewn cyfarfod ar wahân. Cytunwyd bod hwn yn fater pwysig a ddylai dreiddio i weithgareddau dydd i ddydd i'r holl staff.

7.5 Cadarnhaodd Steve Morris, Pennaeth TGCh, fod y ffocws ar y Fframwaith Asesu Seiber gan fod Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) yn arwain ar y darn hanfodol hwn o waith, gan annog yr holl sectorau cyhoeddus i gyflawni hynny yn 2025. Byddai cyfarfod pellach yn cael ei gynnal gydag MIAA o fewn yr wythnosau nesaf er mwyn asesu cynnydd yn erbyn yr argymhellion y cytunwyd arnynt.

7.6 Cynghorodd PSTC Jones hefyd ei fod wedi'i neilltuo'n uniongyrchol i'r Pwyllgor Llywio Gwybodaeth, fel Risg Strategol, a bod cyfarfodydd rheolaidd yn cael eu cynnal gyda Chadeirydd a Dirprwy Gadeirydd yr Awdurdod i drafod y Gofrestr Risg.

7.7 PENDERFYNWYD:

i) Nodi'r gwaith a wnaed gan MIAA yn ystod 2024/25; a
ii) nodi'r cynnydd a wnaed wrth weithredu'r argymhellion y cytunwyd arnynt.

8.0 DIWEDDARIAD BLYNYDDOL AR DDIOGELU 2024-25

8.1 Cyflwynodd PSTC Anthony Jones y Diweddariad Blynyddol ar Ddiogelu ar gyfer 2024-25, dogfen a oedd yn amlinellu'r gweithgareddau diogelu a gynhaliwyd gan Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (y Gwasanaeth) rhwng 1 Ebrill 2024 a 31 Mawrth 2025. Mae'n ailddatgan ymrwymiad y Gwasanaeth i ddiogelu unigolion bregus ledled Gogledd Cymru, gan fanylu ar nifer ac ar natur yr atgyfeiriadau diogelu a wnaed ar gyfer plant ac oedolion sy'n wynebu risg. Mae'r adroddiad hefyd yn tynnu sylw at rôl ragweithiol staff wrth adnabod ac ymateb i arwyddion o gamdriniaeth, esgeulustod a chamfanteisio.

8.2 Gofynnodd Aelod am y llwyth gwaith sy'n gysylltiedig â gwneud atgyfeiriadau gan ei bod yn ymddangos bod diffyg rhoi gwybod mewn rhai meysydd, ac ymatebodd PSTC Jones fod y broses yn syml ac wedi'i hymgorffori'n dda yn y Gwasanaeth. Fodd bynnag, roedd cynllun ar waith i wneud gwelliannau ac roedd yn parhau i fod yn faes lle ceid ffocws pwrpasol, gydag adnoddau ar gael yn ôl yr angen.

8.3 Gofynnodd Aelod a oedd unrhyw dueddiadau yn y data, a chytunodd PSTC Jones y byddai dadansoddiad data pellach yn cael ei gynnal a'i fwydo'n ôl i'r Aelodau y tu allan i'r cyfarfod.

8.4 Nododd PSTC Evans fod yr atgyfeiriadau diogelu hyn yn cael eu gwneud yn gyffredinol mewn cysylltiad â phobl nad oeddent eisoes yn hysbys i asiantaethau partner eraill ac felly roedd hwn yn faes gwaith pwysig.

8.5 PENDERFYNWYD:

i) Ehangu'r capasiti hyfforddi mewnol trwy gefnogi staff i gael cymwysterau diogelu uwch;
ii) gwella ymwybyddiaeth o ddiogelu mewn ardaloedd lle ceir cyfraddau atgyfeirio isel, fel Wrecsam ac Ynys Môn, trwy dargedu gwaith allgymorth a hyfforddiant;
iii) cryfhau'r gwaith o gasglu a dadansoddi data er mwyn monitro tueddiadau yn well ac i lywio penderfyniadau strategol; a
iv) chyflwyno arweinwyr diogelu swyddogaethol ar draws pob ardal weithredol er mwyn sicrhau cysondeb mewn arfer ac arweinyddiaeth.

9.0 ADRODDIAD RHEOLI TRYSORLYS AR GYFER Y FLWYDDYN 2024/25

9.1 Cyflwynodd Dafydd Edwards yr Adroddiad Rheoli Trysorlys ar gyfer Blwyddyn 2024/25 i'r Aelodau a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am weithgarwch rheoli trysorlys a chydymffurfiaeth â dangosyddion darbodus rheoli trysorlys ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2024 – 31 Mawrth 2025.

9.2 Gofynnodd Aelod a oedd unrhyw bryderon wrth symud ymlaen, ac atebodd y Trysorydd fod y risgiau byd-eang ar hyn o bryd yn peri pryder ond, o ran eu heffaith ar y senario economaidd, roedd hyn yn anodd ei ragweld. Roedd yn edrych yn debygol y bydd cyfraddau llog yn gostwng ac felly nid oedd wedi effeithio ar gostau benthyca'r Gwasanaeth eto; fodd bynnag, gallai unrhyw gynnydd yn yr arena fyd-eang effeithio ar chwyddiant ac, o ganlyniad, gallai'r cyfraddau llog ar fenthyca ddechrau cynyddu.

9.3 PENDERFYNWYD:

i) nodi'r gweithgareddau rheoli trysorlys a'r dangosyddion darbodus ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2024 i 31 Mawrth 2025.

10.0 STRATEGAETH GAFFAEL GWASANAETHAU TÂN AC ACHUB CYMRU 2025-2030

10.1 Cyflwynodd Elgan Roberts Strategaeth Gaffael Gwasanaethau Tân ac Achub Cymru 2025-2030, fframwaith cyffredin ar gyfer pob un o'r tri gwasanaeth tân ac achub yng Nghymru i ddarparu arbedion effeithlonrwydd, gwerth am arian a manteision eraill mewn perthynas â chaffael nwyddau a gwasanaethau.

10.2 Cadarnhaodd Elgan fod gwaith yn cael ei wneud yn y cefndir i gasglu'r data a sefydlu dangosfwrdd a Dangosyddion Perfformiad Allweddol wrth symud ymlaen. Ni phenderfynwyd ar y rhain hyd yma, ond byddai'r Aelodau'n cael gwybod pan fyddai penderfyniad wedi'i wneud.

10.3 Diolchwyd i'r swyddogion am eu gwaith caled yn y maes hwn, ac am y crynodeb gweithredol yn yr adroddiad a oedd yn crynhoi ei gynnwys yn glir.

10.4 PENDERFYNWYD:

i) Nodi a chymeradwyo Strategaeth Gaffael Cymru Gyfan 2025-2030

11.0 PENNU CYLLIDEB 2026-27

11.1 Rhoddodd Elgan Roberts ddiweddariad llafar i'r Aelodau ynglŷn â Phennu'r Gyllideb ar gyfer 2026-27.

11.2 Nododd fod y diweddariad hwn yn edrych ymlaen at flwyddyn ariannol 2026/27 a'r gwaith sydd ei angen dros y chwe mis nesaf i bennu cyllideb deg a realistig.

11.3 Yn unol â'r blynyddoedd blaenorol, gofynnwyd i Weithgor Craffu ar y Gyllideb gael ei sefydlu i sicrhau goruchwyliaeth ariannol gan yr Awdurdod. Ar gyfer eleni, roedd y broses o bennu'r gyllideb wedi'i hadolygu i gyd-fynd yn well â gwaith y timau cynllunio, trawsnewid, a rheoli risg.

11.4 Y bwriad oedd i'r grŵp ddechrau trwy adolygu'r risgiau a sut maent yn dod yn rhan o amcanion adrannol, a chael diweddariad ar brosiect y ganolfan hyfforddi. Byddai'r ffocws wedyn yn symud at incwm o bartneriaethau ac ardollau, cronfeydd wrth gefn, a'r templed newydd ar gyfer achosion busnes, ac yna golwg ar gyllidebau adrannol, adolygiad o ofynion refeniw dros dair blynedd a'r cynllun cyfalaf deng mlynedd er mwyn creu cynllun tymor canolig. Byddai disgwyl y fersiwn ddrafft gyntaf o'r gyllideb tua diwedd mis Medi.

11.5 Byddai ail fersiwn y gyllideb yn cael ei hadolygu wedyn, gyda phwyslais penodol ar effeithlonrwydd ac arbedion. Y nod fyddai cyflwyno'r gyllideb lawn ym mis Tachwedd, gan sicrhau bod yr holl achosion busnes wedi'u cymeradwyo. Byddai sesiwn wrth gefn yn cael ei threfnu ym mis Rhagfyr rhag ofn bod angen unrhyw addasiadau.

11.6 Roedd yn bwysig sicrhau bod pob awdurdod lleol yn cael ei gynrychioli, gyda dirprwy yn bresennol os nad oedd yr Aelod enwebedig ar gael. Cytunodd yr aelodau fod y Grŵp Craffu ar y Gyllideb yn grŵp effeithiol a gwerth chweil ac y dylai'r grŵp barhau. Enwebiadau i'w darparu i Wasanaethau Aelodau.

11.7 Gofynnodd y Trysorydd am gael nodi'r ffaith ei fod wedi gwerthfawrogi gwaith y grŵp hwn dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, a'i fod yn teimlo bod ganddo rôl bwysig wrth graffu ar y gyllideb a chyfathrebu ag awdurdodau lleol ar gam cynnar mewn perthynas â'r ardollau arfaethedig.

11.8 PENDERFYNWYD:

i) Nodi'r wybodaeth a ddarperir ac i gynrychiolydd o bob awdurdod lleol gael ei gyflwyno i Wasanaethau Aelodau.

12.0 DATGANIAD O GYFRIFON DRAFFT 2024-25

12.1 Cyflwynodd PSTC MacArthur y Datganiad o Gyfrifon heb ei archwilio ar gyfer 2024-25, gan gynnwys yr alldro refeniw a chyfalaf, sefyllfa'r fantolen, a'r sefyllfa o ran cronfeydd wrth gefn y gellir eu defnyddio ar gyfer yr Awdurdod. Rhoddwyd diolch i'r tîm Cyllid, yn enwedig Pennaeth a Dirprwy Bennaeth yr adran, am eu holl waith caled wrth gynhyrchu'r ddogfen helaeth, llawn gwybodaeth hon o fewn yr amserlenni statudol.

12.2 Tynnodd PSTC MacArthur sylw at yr adroddiad naratif manwl yn y Datganiad o Gyfrifon a oedd yn rhoi trosolwg da o'r Awdurdod gan gynnwys gwybodaeth ariannol allweddol. Cadarnhaodd PSTC MacArthur fod y sefyllfa alldro yn warged o £0.293m a oedd yn cynnwys cyllid ychwanegol i gefnogi costau pensiwn y cyflogwr, costau cyflogres, grantiau a symudiadau rhwng cronfeydd wrth gefn. Cyfanswm y cronfeydd wrth gefn y gellir eu defnyddio ar ddiwedd y flwyddyn oedd £10.879m a nododd PSTC MacArthur fod dadansoddiad wedi'i ddarparu yn Nodyn 8 yn y Datganiad o Gyfrifon. Darparwyd trosolwg o'r prif gronfeydd wrth gefn.

12.3 Gofynnodd Aelod a oedd y cronfeydd wrth gefn a gedwir yn ddigon i gwmpasu unrhyw risgiau, a chadarnhaodd PSTC MacArthur eu bod yn darparu gwydnwch ariannol yn erbyn materion hysbys, gan gynnwys gweithgarwch uwch na'r disgwyl.

12.4 Amlinellodd PSTC MacArthur yr ymatebion a ddarparwyd i Archwilio Cymru mewn perthynas ag ymholiadau yn ymwneud â thwyll, cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau a thrafodion partïon cysylltiedig. Cadarnhawyd bod yr ymateb wedi'i gymeradwyo gan Gadeirydd yr Awdurdod Tân.

12.5 Cadarnhaodd y Trysorydd ei fod yn hapus i lofnodi'r cyfrifon drafft hyn a diolchodd i PSTC MacArthur, y Pennaeth a'r Dirprwy Bennaeth Cyllid, a gweddill yr adran Gyllid am y gwaith caled a wnaed i lunio'r cyfrifon hyn. Nododd ymhellach fod Archwilio Cymru eisoes wedi dechrau eu harchwilio.

12.6 PENDERFYNWYD:

- **i) Nodi'r sefyllfa alldro refeniw a chyfalaf heb ei archwilio;**
- **ii) Nodi sefyllfa'r fantolen heb ei harchwilio;**
- **iii) Nodi a chymeradwyo'r symudiad i gronfeydd wrth gefn ac ohonynt; a**
- **iv) Chymeradwyo'r ymateb i Archwilio Cymru mewn perthynas â materion llywodraethiant sy'n berthnasol i'r Datganiad o Gyfrifon.**

13.0 DATGANIAD LLYWODRAETHIANT BLYNYDDOL 2024-2025

13.1 Cyflwynodd PSTC Anthony Jones ddrafft o'r Datganiad Llywodraethiant Blynyddol i Aelodau'r Pwyllgor Archwilio, fel sy'n ofynnol gan Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014, cyn ei gyflwyno i Archwilio Cymru erbyn y terfyn amser, sef 31 Mai 2025.

13.2 PENDERFYNWYD:

i) Cytuno ar y camau gweithredu arfaethedig ar gyfer 2024/25;
ii) nodi bod drafft o'r Datganiad Llywodraethiant Blynyddol wedi'i gyflwyno i Archwilio Cymru cyn y dyddiad cau o 31 Mai; ac
iii) awdurdodi ei gyflwyno i Archwilio Cymru cyn 31 Mai 2025.

14.0 CYNLLUN ARCHWILIO 2025

14.1 Croesawyd Kieran Vickery o Archwilio Cymru i'r cyfarfod, ynghyd â Carwyn Rees a Tim Buckle, a dywedodd wrth yr Aelodau mai pwrpas yr adroddiad hwn oedd cadarnhau Cynllun Archwilio 2025 a oedd yn manylu ar y dull archwilio a'r gwaith i'w wneud gan Archwilio Cymru fel archwilwyr statudol yr Awdurdod.

14.2 Cadarnhaodd Tim mai prif ffocws eu gwaith eleni oedd cynaliadwyedd ariannol a byddai'r amser gorau i gynnal gwaith archwilio perfformiad yn cael ei nodi maes o law.

14.3 Gofynnodd Aelod, o dan yr archwiliad perfformiad, a fyddai hyn yn cynnwys gwaith a wnaed ar ymateb y Gwasanaeth i danau mewn anheddau domestig, ac a oedd y cynllun yn addas i'r diben. Ymatebodd Tim Buckle, er bod ganddynt brif faes ffocws ar gyfer eu gwaith, bod eu hargymhellion o waith blaenorol a'r ymatebion iddynt yn cael eu monitro'n barhaus ynghyd ag unrhyw risgiau a allai ddod i'r amlwg, a bod cynlluniau yn cael eu diwygio yn unol â hynny.

14.4 Gofynnwyd ymhellach, os oes unrhyw broblemau, sut y byddai'r Aelodau'n cael eu cynghori am hynny ac ymatebodd Tim Buckle y byddent yn rhoi gwybod am hyn i'r Aelodau drwy'r sianeli priodol.

14.5 PENDERFYNWYD:

i) Nodi cwmpas y gwaith a wnaed gan Archwilio Cymru.

15.0 MATERION BRYS

14.1 Nid oedd unrhyw faterion brys i'w trafod.

Daeth y cyfarfod i ben am 10:55

This document is available in English

Eitem Agenda 6

Adroddiad i	**Y Pwyllgor Archwilio**
Dyddiad	**15 Medi 2025**
Swyddog Arweiniol	**Dawn Docx, Prif Swyddog Tân**
Swyddog Cyswllt	**Dawn Docx**
Pwnc	**Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ynghylch y Trefniadau Llywodraethiant ar gyfer Gwasanaethau Tân ac Achub yng Nghymru**

PWRPAS YR ADRODDIAD

1 Tynnu sylw'r Aelodau at y ffaith fod ymgynghoriad cyhoeddus wedi'i gyhoeddi ynghylch y Trefniadau Llywodraethiant ar gyfer Gwasanaethau Tân ac Achub yng Nghymru yn y dyfodol.

ARGYMHELLION

2 Argymhellir bod yr Aelodau'n:

i) Nodi cynnwys yr ymgynghoriad; ac yn

ii) Cytuno i fynd i weithdy i graffu ar y cynigion a chyflwyno ymateb wedi'i ddrafftio ar ran yr Awdurdod, yn nodi barn yr Aelodau ynglŷn â'r cynigion.

CEFNDIR

3 Cafodd y trefniadau llywodraethiant presennol ar gyfer Gwasanaethau Tân ac Achub yng Nghymru eu sefydlu drwy gyfrwng tri Gorchymyn Cyfuno yn 1996. Yn sgil y rhain sefydlwyd yr Awdurdodau Tân ac Achub presennol a'r dull cyllido cyfunol sy'n gweithio drwy godi ardoll ar bob Awdurdod Lleol cyfansoddol.

4 Yn 2018 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru (LlC) bapur gwyn o'r enw "Diwygio Awdurdodau Tân ac Achub Cymru". Bydd rhai Aelodau'n cofio, ar ôl cyfnod o ymgynghori, mai'r penderfyniad oedd bwrw ymlaen â'r cynigion ynghylch cyllid yn unig, ond ni ddaeth y rhain i fod ychwaith oherwydd y pandemig yn 2020.

5 Yn 2024 ymyrrodd Llywodraeth Cymru yng Ngwasanaeth Tân ac Achub De Cymru (GTADC) a chyflwyno Comisiynwyr i ddisodli'r Awdurdod Tân ac Achub. Yn yr un flwyddyn, cynhaliodd Archwilio Cymru adolygiad o drefniadau llywodraethiant y Gwasanaethau Tân ac Achub yng Nghymru. Mewn ymateb i'r ddau ddigwyddiad hyn, mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn ystyried opsiynau ar gyfer newid ac yn ddiweddar maent wedi cyhoeddi cynigion newydd ynghylch llywodraethiant Gwasanaethau Tân ac Achub yng Nghymru.

GWYBODAETH

6 Y bwriad oedd cynnal yr ymgynghoriad 12 wythnos dros yr haf, ond gan fod oedi wedi bod o ran y dyddiad cyhoeddi bydd y cyfnod hwn bellach yn ymestyn i'r hydref.

7 Mae Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol, Tai a Chynllunio wedi ymgysylltu â'r Cadeiryddion, y Prif Swyddogion Tân a'r Undebau Llafur drwy gyfrwng y Fforwm Partneriaeth Gymdeithasol, lle cafwyd amrywiaeth o safbwyntiau am y cynigion, fel y gellid disgwyl. Fe wnaeth Ysgrifennydd y Cabinet atgoffa'r aelodau fod y cynigion yn y papur yn cwmpasu newidiadau y gellid eu cyflwyno'n awr, yn ystod y tymor hwn yn y Senedd, yn hytrach nag opsiynau a fyddai'n gofyn am ddeddfwriaeth sylfaenol yn nhymor nesaf y Senedd.

8 Mae'r cynigion wedi'u hamlinellu o amgylch tair thema:

a) Aelodaeth Awdurdodau Tân ac Achub neu Fyrddau.
b) Cyllid
c) Arolygu Gwasanaethau Tân ac Achub

9 Dechreuodd yr ymgynghoriad ar 29 Awst 2025, ac fe'i rhannwyd â'r holl gyrff cyhoeddus yng Nghymru - Diwygio awdurdodau tân ac achub yng Nghymru 2025 | LLYW.CYMRU

10 Cynigir y dylid cynnal gweithdy gyda'r Aelodau i ganfod eu safbwyntiau ac i lunio eu hymateb i'r ymgynghoriad.

GOBLYGIADAU

Amcanion Llesiant	Mae'r papur hwn yn cyflwyno cynigion sy'n ceisio gwella trefniadau llywodraethiant o amgylch Gwasanaethau Tân ac Achub yng Nghymru.
Cyllideb	Gall y mecanweithiau ar gyfer cytuno ar y gyllideb ar gyfer Gwasanaethau Tân ac Achub achosi gostyngiad mewn cyllid.
Cyfreithiol	Gellir gweithredu'r cynigion hyn o fewn y gorchmynion cyfuno presennol ac nid oes angen deddfwriaeth sylfaenol ar eu cyfer.
Staffio	Gallai unrhyw ostyngiadau yn y gyllideb fod â goblygiadau staffio.
Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg	Amh.
Risgiau	Gallai lleihau nifer yr aelodau a benodir gan awdurdodau lleol leihau'r craffu lleol ar Wasanaethau Tân ac Achub.

This document is available in English

Eitem Agenda 7

Adroddiad i	**Y Pwyllgor Archwilio**
Dyddiad	**15 Medi 2025**
Swyddog Arweiniol	**Helen MacArthur, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol**
Swyddog Cyswllt	**Elgan Roberts, Pennaeth Cyllid a Chaffael**
Pwnc	**Adroddiad Rheoli Trysorlys Ch1 2025-26**

PWRPAS YR ADRODDIAD

1 Pwrpas yr adroddiad hwn yw rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i Aelodau Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) am weithgarwch rheoli trysorlys ac am gydymffurfiaeth â'r dangosyddion darbodus rheoli trysorlys ar gyfer y cyfnod o 1 Ebrill 2025 hyd at 30 Mehefin 2025.

CRYNODEB GWEITHREDOL

2 Ym mis Rhagfyr 2003, mabwysiadodd yr Awdurdod God Ymarfer *Treasury Management in the Public Services* (2021) y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (Cod CIPFA), sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod gymeradwyo, fan lleiaf, adroddiadau alldro blynyddol ac adroddiadau hanner blwyddyn ynghylch rheoli trysorlys.

3 Roedd Cod CIPFA hefyd yn cynnwys gofyniad newydd i roi adroddiadau chwarterol ar y dangosyddion rheoli trysorlys o fis Ebrill 2023 ymlaen. Mae'r dangosyddion darbodus nad ydynt yn rhai trysorlys wedi'u cynnwys yn adroddiad monitro refeniw a chyfalaf arferol yr Awdurdod.

4 Cymeradwywyd strategaeth rheoli trysorlys yr Awdurdod ar gyfer 2025/26 mewn cyfarfod ar 4 Ebrill 2025. Gan fod yr Awdurdod yn benthyca ac yn buddsoddi symiau sylweddol o arian, rhaid rhoi ystyriaeth i risgiau ariannol, gan gynnwys colli arian a fuddsoddwyd ac effaith newid mewn cyfraddau llog ar refeniw. Mae nodi, monitro a rheoli risg yn llwyddiannus yn parhau i fod yn rhan ganolog o strategaeth rheoli trysorlys yr Awdurdod.

5 Yn ystod y flwyddyn, roedd lefelau benthyca a buddsoddi'r Awdurdod yn gyfforddus o fewn y terfynau a osodwyd yn wreiddiol. Ni chafwyd unrhyw ddiffygdalu newydd gan fanciau lle mae'r Awdurdod wedi adneuo arian.

ARGYMHELLION

6 Gofynnir i'r Aelodau:

i) nodi'r gweithgareddau rheoli trysorlys a'r dangosyddion darbodus ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2025 i 30 Mehefin 2025.

CYD-DESTUN ALLANOL

7 Cynyddodd prif Fynegai Prisiau Defnyddwyr y DU (CPI) dros y chwarter, gan godi o gyfradd flynyddol o 2.6% ym mis Mawrth i 3.4% ym mis Mai, ymhell uwchlaw targed Banc Lloegr o 2%. Cynyddodd mesur craidd chwyddiant hefyd, o 3.4% i 3.5% dros yr un cyfnod. Fodd bynnag, roedd ffigurau chwyddiant Mai yn gyffredinol yn is nag yn y mis blaenorol, pan oedd CPI yn 3.5% a CPI craidd yn 3.8%. Roedd chwyddiant gwasanaethau yn 4.7% ym mis Mai, gostyngiad o 5.4% yn y mis blaenorol.

8 Torrodd Pwyllgor Polisi Ariannol Banc Lloegr (MPC) Gyfradd y Banc i 4.25% ym mis Mai.

9 Cynhaliodd cynghorydd trysorlys yr Awdurdod ei farn y byddai Cyfradd y Banc yn parhau i ostwng, ac y byddai Banc Lloegr yn canolbwyntio mwy ar dwf GDP gwan yn hytrach na chwyddiant sydd uwchlaw'r targed. Disgwylir dau doriad arall yn ystod 2025, gan fynd â'r brif gyfradd bolisi i 3.75%.

CYD-DESTUN LLEOL

10 Ar 30 Mehefin 2025, roedd benthyciad net yr Awdurdod yn £19.05m yn deillio o wariant cyfalaf.

11 Mae'r angen sylfaenol i fenthyca at ddibenion cyfalaf yn cael ei fesur gan y Gofyniad Ariannu Cyfalaf (CFR), ac adnoddau mantolen yw'r adnoddau sylfaenol sydd ar gael i'w buddsoddi. Mae'r ffactorau hyn yn cael eu crynhoi yn Nhabl 1 isod.

12 Mae Tabl 1 yn cadarnhau bod benthyciadau net yr Awdurdod yn is na'r Gofyniad Ariannu Cyfalaf (CFR).

Tabl 1: Crynodeb o'r Fantolen

	31.03.25 Gwirioneddol £m	**30.06.25 Gwirioneddol £m**
CFR y Gronfa Gyffredinol	31.01	23.56
Benthyca allanol	-19.07	-19.05
Benthyca mewnol	**11.94**	**4.51**
Llai: Adnoddau mantolen	-14.46	-14.46
Llai: Buddsoddiadau Newydd	2.52	9.95
Benthyca newydd	**0.00**	**0.00**

13 Mae'r sefyllfa rheoli trysorlys ar 30 Mehefin a'r newid dros y chwarter yn cael eu dangos yn Nhabl 2 isod.

Tabl 2: Crynodeb Rheoli Trysorlys

	31.3.25 Balans	Symudiad	30.06.25 Balans	30.06.25 Cyfradd
	£m	£m	£m	%
Benthyca hirdymor	8.46	0.00	8.46	2.81 - 4.80
Benthyca byrdymor	10.61	-0.02	10.62	1.07 – 5.20
Cyfanswm y benthyca	**19.07**	**-0.02**	**19.05**	
Buddsoddiadau byrdymor	0.00	-7.00	-7.00	4.20 – 4.45
Arian parod a chyfwerth ag arian parod	-2.52	-0.43	-2.95	3.50- 4.22
Cyfanswm y buddsoddiadau	**-2.52**	**-7.43**	**-9.95**	
Benthyca net	**16.55**	**-7.45**	**9.10**	

BENTHYCA

14 Mae Cod Darbodus CIPFA 2021 yn amlinellu'r ffaith na ddylai awdurdodau lleol fenthyca er mwyn buddsoddi gyda'r nod pennaf o elwa'n ariannol. Nid yw'n ddarbodus i awdurdodau lleol wneud unrhyw benderfyniad buddsoddi neu wariant a fydd yn cynyddu'r gofyniad ariannu cyfalaf ac yn arwain at fenthyciadau newydd, oni bai ei fod yn uniongyrchol ac yn bennaf gysylltiedig â swyddogaethau'r Awdurdod.

15 Nid yw'r Awdurdod wedi buddsoddi mewn asedau ar gyfer elw ariannol ac mae'r holl wariant yn gysylltiedig â chyflawni swyddogaethau'r Awdurdod.

STRATEGAETH A GWEITHGARWCH BENTHYCA

16 Yn unol â'r strategaeth trysorlys, prif amcan yr Awdurdod wrth fenthyca yw mabwysiadu strategaeth risg isel, gan gydbwyso costau llog isel a chael sicrwydd cost trwy gydol y cyfnod y mae angen cyllid ar ei gyfer. Ail nod yw sicrhau hyblygrwydd i aildrafod benthyciadau pe bai cynlluniau tymor hir yr Awdurdod yn newid. Mae strategaeth fenthyca yr Awdurdod yn parhau i fynd i'r afael â'r mater allweddol o fforddiadwyedd, a hynny heb gyfaddawdu ar sefydlogrwydd tymor hwy y portffolio dyled.

17 Mae cost benthyca tymor byr gan awdurdodau eraill wedi bod yn debyg i'r Gyfradd Sylfaenol yn ystod y cyfnod ar 4.0% i 4.5%.

18 Cyfradd sicrwydd y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus (PWLB) ar gyfer benthyciadau aeddfedrwydd 10 mlynedd oedd 5.38% ar ddechrau'r cyfnod a 5.27% ar y diwedd. Y gyfradd aeddfedrwydd 10 mlynedd isaf oedd ar gael oedd 5.17% a'r uchaf oedd 5.56%. Roedd y cyfraddau ar gyfer benthyciadau aeddfedrwydd 20 mlynedd yn amrywio o 5.71% i 6.16% yn ystod y cyfnod, a benthyciadau aeddfedrwydd 50 mlynedd yn amrywio rhwng 5.46% a 5.97%.

19 Ar 30 Mehefin 2025, roedd gan yr Awdurdod £19.05m o fenthyciadau, gostyngiad o £0.02m o'i gymharu â 31 Mawrth 2025. Darperir crynodeb o'r benthyciadau sy'n weddill ar 31 Mawrth yn Nhabl 3A isod.

Tabl 3A: Sefyllfa o ran Benthyca

	31.3.25 Balans £m	Symudiad Net £m	30.06.25 Balans £m	30.06.25 Cyfradd Gyfartalog wedi'i Phwysoli	30.06.25 Aeddfedrwydd Cyfartalog wedi'i Bwysoli (blynyddoedd)
Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus	14.073	-0.02	14.053	3.2%	7.150
Awdurdodau lleol (tymor byr)	5.00	0.000	5.000	5.2%	0.410
Cyfanswm y benthyca	**19.07**	**-0.02**	**19.053**		

20 Cymerodd yr Awdurdod fenthyciad awdurdod lleol tymor byr newydd o £5M ym mis Rhagfyr '24 a oedd i'w ad-dalu ym mis Awst '25. Mae pob benthyciad tymor byr arall gyda'r PWLB. Nid oes angen benthyca pellach tan fis Awst; fodd bynnag, os ceir symudiad sydyn yn y farchnad gyda chyfraddau gwell bydd hyn yn cael ei ddefnyddio ar sail cyngor gan ein cynghorwyr trysorlys, Arlingclose.

Tabl 3B: Benthyciadau hirdymor a fenthycwyd

	Swm £m	Cyfradd %	Cyfnod (Blynyddoedd)
Benthyciad Aeddfedrwydd PWLB	2.00	4.80	28
Benthyciad EIP PWLB	0.59	3.09	13
Benthyciad EIP PWLB	4.17	3.91	16
Cyfanswm y benthyca	**6.76**		

21 Nid yw penderfyniadau benthyca'r Awdurdod yn cael eu seilio ar unrhyw ganlyniad unigol o ran cyfraddau llog, ac mae'n ceisio cynnal portffolio cytbwys o fenthyca byrdymor a hirdymor.

GWEITHGAREDD BUDDSODDI TRYSORLYS

22 Cyhoeddodd CIPFA fersiynau diwygiedig o'r Cod Ymarfer ar Reoli Trysorlys yn y Gwasanaethau Cyhoeddus a Nodiadau Canllaw Traws-Sectoraidd ar 20 Rhagfyr 2021. Mae'r rhain yn diffinio buddsoddiadau rheoli trysorlys fel buddsoddiadau sy'n deillio o lifoedd arian neu weithgarwch rheoli risg trysorlys y sefydliad sydd, yn y pen draw, yn cynrychioli balansau y mae angen eu buddsoddi nes bydd angen yr arian i'w ddefnyddio ar gyfer busnes.

23 Mae'r Awdurdod yn dal cronfeydd sydd wedi'u buddsoddi, sy'n cynrychioli incwm a dderbyniwyd cyn gwariant, ynghyd â balansau a chronfeydd wrth gefn a ddelir. Yn ystod y chwarter, roedd balansau buddsoddi'r Awdurdod yn amrywio rhwng £1.03m a £13.73m. Mae'r sefyllfa fuddsoddi yn cael ei dangos yn Nhabl 4 isod.

Tabl 4: Sefyllfa Buddsoddi Trysorlys

	31.3.25		30.06.25	30.06.25	30.06.25
	Balans	Symudiad Net	Balans	Adenillion Incwm	Aeddfedrwydd Cyfartalog wedi'i Bwysoli
	£m	£m	£m	%	dyddiau
Banciau a chymdeithasau adeiladu	2.52	0.43	2.52	3.5-4.04	Ar alwad
Cyfnod Penodol		4.00	4.00	4.22	30
Llywodraeth Ganolog		3.00	3.00	4.21	11
Cyfanswm y buddsoddiadau	**2.52**	**7.43**	**9.95**		

24 Mae Cod CIPFA a chanllawiau'r llywodraeth yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod fuddsoddi ei arian yn ddoeth, a rhoi sylw i ddiogelwch a hylifedd ei fuddsoddiadau trysorlys cyn ceisio'r gyfradd enillion neu incwm orau bosibl. Amcan yr Awdurdod wrth fuddsoddi arian yw cael y cydbwysedd priodol rhwng risg ac adenillion, gan leihau'r risg o golledion oherwydd diffygdalu a'r risg o gael incwm buddsoddi anaddas o isel.

25 Fel y mae'r meincnod atebolrwydd yn yr adroddiad hwn yn ei ddangos, mae'r Awdurdod yn disgwyl bod yn fenthyciwr hirdymor ac felly gwneir buddsoddiadau trysorlys newydd yn bennaf er mwyn rheoli llif arian parod o ddydd i ddydd gan ddefnyddio offerynnau risg isel tymor byr.

26 Gostyngodd Cyfradd y Banc o 4.5% i 4.25% ym mis Mai gyda chyfraddau llog tymor byr yn bennaf o gwmpas y lefelau hyn. Roedd y cyfraddau ar adneuon DMADF yn amrywio rhwng 4.20% a 4.45% a chyfraddau y farchnad arian rhwng 3.50% a 4.22%.

CYDYMFFURFIAETH

27 Mae'r holl weithgareddau rheoli trysorlys a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn wedi cydymffurfio â'r egwyddorion yn y Cod Rheoli Trysorlys ac yn Strategaeth Rheoli Trysorlys yr Awdurdod, fel y'i cymeradwywyd. Mae gan Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (y Gwasanaeth) ddau gyfrif galwadau sy'n cael eu defnyddio i osod adneuon tymor byr, gyda Lloyds Bank a Barclays Bank. Mae'r cyfraddau llog sy'n cael eu cynnig ar adneuon trysorlys yn tueddu i fod yn fwy ffafriol; fodd bynnag, cadwyd adneuon gyda Lloyds a Barclays yn ystod y cyfnod oherwydd y gofyniad hylifedd ar gyfer prynu'r tir ar gyfer y ganolfan hyfforddi newydd.

28 Mae'r Awdurdod hefyd yn defnyddio ei gyfrif gyda'r Swyddfa Rheoli Dyledion (DMO), gan nad yw'r Strategaeth Rheoli Trysorlys yn rhoi cyfyngiad ar faint o arian y gellir ei roi i'r DMO.

29 Dangosir cydymffurfiaeth â therfynau buddsoddi penodol yn Nhabl 5 isod.

Tabl 5: Terfynau Buddsoddi

Sefydliad	Disgrifiad	Terfyn	30.06.25 Gwirioneddol	Wedi cydymffurfio? Do/Naddo
Banciau	Holl fanciau'r DU a'u his-gwmnïau sydd â sgoriau da (Fitch neu gyfwerth). Mae hyn yn cael ei ddiffinio fel hirdymor (BBB) ar hyn o bryd.	£5m	**£9.95m**	do
Llywodraeth Ganolog	Swyddfa Rheoli Dyledion (DMO)	Diderfyn	**0**	do
Cronfeydd Marchnad Arian (MMF)	Dim ond ar y cyd â chyngor ar gyfer Arlingclose.	£1m fesul cronfa	**0**	do
Awdurdodau Lleol	Pob un ac eithrio'r rhai sy'n destun cyfyngiad treth gyngor a phraeseptau dan Ran 1 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992	£2m	**0**	do
Cymdeithasau Adeiladu	Cymdeithasau adeiladu sydd â sgôr (fel ar gyfer y sector bancio)	£2m	**0**	do
Cymdeithasau Adeiladu (Asedau £1bn)	Cymdeithasau adeiladu heb sgôr ond gydag asedau o £1 biliwn neu fwy.	£2m/9 mis	**0**	do

30 Dangosir Cydymffurfiaeth â'r Terfyn Awdurdodedig a'r Ffin Weithredol ar gyfer dyled allanol yn Nhabl 6 isod.

Tabl 6: Dyled a'r Terfyn Awdurdodedig a'r Ffin Weithredol

	30.06.25 Gwirioneddol £m	Ffin Weithredol 2025/26 £m	Terfyn Awdurdodedig 2025/26 £m	Wedi cydymffurfio?
Benthyca	19.05	28.99	30.99	✓
Cyfanswm y ddyled	**19.05**	**28.99**	**30.99**	

31 Gan fod y ffin weithredol yn offeryn rheoli ar gyfer monitro yn ystod y flwyddyn, efallai y bydd achlysuron pan fydd y benthyca gwirioneddol yn fwy na'r targed hwn. Gallai hyn ddigwydd oherwydd amrywiadau yn y llif arian parod ac ni fyddai torri'r terfyn yn y byrdymor yn cyfrif fel methiant i gydymffurfio.

DANGOSYDDION RHEOLI TRYSORLYS

32 Fel sy'n ofynnol gan God Rheoli Trysorlys CIPFA 2021, mae'r Awdurdod yn monitro ac yn mesur y dangosyddion darbodus canlynol o ran rheoli trysorlys.

Meincnod Atebolrwydd

33 Mae'r dangosydd newydd hwn yn cymharu benthyca gwirioneddol yr Awdurdod ar hyn o bryd yn erbyn meincnod atebolrwydd a gyfrifwyd i ddangos y lefel risg isaf o fenthyca. Mae'r meincnod atebolrwydd yn offeryn pwysig i helpu i benderfynu a yw'r Awdurdod yn debygol o fod yn fenthyciwr hirdymor neu'n fuddsoddwr hirdymor yn y dyfodol, ac i addasu ei ffocws strategol a'i ddull o wneud penderfyniadau yn sgil hynny.

34 Mae'r dangosydd yn cynrychioli amcangyfrif o swm cronnol y benthyca allanol y mae'n rhaid i'r Awdurdod ei gynnal er mwyn ariannu ei gynlluniau cyfalaf a refeniw presennol, gan gadw buddsoddiadau trysorlys ar y lefel isaf o £2.0m sy'n ofynnol i reoli llif arian parod o ddydd i ddydd.

	31.03.25 Gwirioneddol £m	**30.06.25 Gwirioneddol £m**	**31.03.26 Rhagolwg £m**	**31.03.27 Rhagolwg £m**
CFR Benthyciadau	31.01	23.56	35.10	38.40
Llai: Adnoddau mantolen	-14.46	-14.46	-21.00	-17.50
Gofyniad benthyciadau net	16.55	9.10	14.10	20.90
A: Lwfans hylifedd	2.00	2.00	2.00	2.00
Meincnod atebolrwydd	**18.55**	**11.10**	**16.10**	**22.90**
Benthyciadau presennol	**-19.07**	**-19.05**	**-8.50**	**-7.10**

35 Nid yw'r rhagolwg uchod yn cynnwys unrhyw gostau ar gyfer y ganolfan hyfforddi arfaethedig.

36 Yn dilyn y rhagolwg tymor canolig uchod, mae'r meincnod atebolrwydd hirdymor yn tybio gwariant cyfalaf a ariennir trwy fenthyca o £4m - £6m y flwyddyn, isafswm darpariaeth refeniw ar wariant cyfalaf newydd yn seiliedig ar fywydau asedau cyfredol, yn unol â'r polisi cyfrifyddu, incwm a gwariant yn cynyddu yn unol â chwyddiant o 2.5% y flwyddyn a gostyngiad mewn cronfeydd wrth gefn. Dangosir hyn yn y siart isod ynghyd â phroffil aeddfedrwydd benthyciadau presennol yr Awdurdod:

37 Mae'r graff yn dangos yr hyn y mae'r Awdurdod yn disgwyl bod angen ei fenthyca yn y blynyddoedd i ddod. Bydd gan yr Awdurdod ofyniad benthyca trwy'r adeg gan nad oes ganddo arian parod na chronfeydd wrth gefn sylweddol a dim ond mynediad cyfyngedig sydd ganddo at gyllid grant cyfalaf.

38 Mae'r llinell las yn cynrychioli'r angen i ariannu gwariant cyfalaf trwy fenthyca (y Gofyniad Ariannu Cyfalaf neu CFR). Mae'r llinellau coch yn cynrychioli'r angen i ariannu gwariant cyfalaf trwy fenthyca unwaith y bydd cronfeydd wrth gefn a gwargedion (neu ddiffygion) cyfalaf gweithio wedi'u hystyried – mewn gwirionedd dyma'r gwir angen i fenthyca y mae CIPFA wedi'i ddiffinio fel y Meincnod Atebolrwydd. Mae'r llinell goch doredig yn cynrychioli'r sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn ac mae'r llinell solet yn cynrychioli'r sefyllfa ganol blwyddyn ar gyfartaledd. Mae'r rhannau llwyd yn dangos benthyciadau gwirioneddol. Pan fydd y rhan lwyd yn gostwng o dan y llinellau coch, mae'n golygu bod angen benthyca.



Strwythur Aeddfedrwydd Benthyciadau

39 Mae'r dangosydd hwn yn rheoli amlygiad yr Awdurdod i risg ailariannu. Y terfynau uchaf ac isaf ar strwythur aeddfedrwydd pob benthyciad oedd:

	31.03.25 Gwirioneddol	Terfyn Gwirioneddol	Terfyn Uchaf	Terfyn Isaf	Wedi Cydymffurfio? Do / Naddo
<12 mis	9.3	48.82%	60.00%	0.00%	Do
12 mis a <24 mis	1.5	7.87%	45.00%	0.00%	Do
24 mis a < 5 mlynedd	1.2	6.30%	45.00%	0.00%	Do
5 mlynedd a <10 mlynedd		0.00%	75.00%	0.00%	Do
>10 mlynedd	7.05	37.01%	100.00%	0.00%	Do

40 Mae'r cyfnodau amser yn dechrau ar ddiwrnod cyntaf pob blwyddyn ariannol. Y dyddiad aeddfedu ar gyfer benthyca yw'r dyddiad cynharaf y gall y benthyciwr fynnu ad-daliad.

Buddsoddiadau Rheoli Trysorlys Hirdymor

41 Nid oes gan yr Awdurdod fuddsoddiadau trysorlys hirdymor.

GOBLYGIADAU

Amcanion Llesiant	Mae'r adroddiad hwn yn cysylltu ag amcanion llesiant tymor hir yr Awdurdod. Mae'n sicrhau bod pryniant asedau i gefnogi darparu gwasanaethau rheng flaen yn ddarbodus, yn fforddiadwy ac yn gynaliadwy. Mae'n sicrhau bod digon o fuddsoddiad yn cael ei wneud mewn seilwaith i alluogi'r gwasanaeth i ddarparu ymatebion brys a gwaith atal ymhell i'r dyfodol.
Cyllideb	Mae'r gyllideb yn cael ei phennu'n flynyddol ar gyfer ariannu cyfalaf yn unol â'r adroddiad Trysorlys.
Cyfreithiol	Mae'r fframwaith rheoleiddio wedi'i nodi ym mharagraff 1.
Staffio	Dim.
Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg	Dim.
Risgiau	Buddsoddi arian dros ben – mae risg y gallai'r sefydliad ariannol lle buddsoddir arian y gwasanaeth fethu, gan arwain at golli rhan o'r prif fuddsoddiad. Fodd bynnag, un o ddibenion yr adroddiad yw lliniaru'r risg hon.

This document is available in English

Eitem Agenda 8

Adroddiad i	**Y Pwyllgor Archwilio**
Dyddiad	**15 Medi 2025**
Swyddog Arweiniol	**PSTC Anthony Jones**
Swyddog Cyswllt	**Mike Plant – Pennaeth Cynllunio, Perfformiad a Thrawsnewid**
Pwnc	**Ardystiad ar gydymffurfio â gofynion asesu perfformiad Mesur Llywodraeth Leol 2009 yn 2025-26**

PWRPAS YR ADRODDIAD

1 Pwrpas yr adroddiad hwn yw cadarnhau i'r Pwyllgor Archwilio ganlyniad yr archwiliad allanol ar fesurau gwella 2025/26 Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod), fel sy'n ofynnol gan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur).

CRYNODEB GWEITHREDOL

2 O dan y Mesur, mae'n ofynnol i'r Awdurdod gyhoeddi Cynllun Gwella blynyddol cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl dechrau'r flwyddyn ariannol. Mae'r gofyniad hwn wedi'i ymgorffori yng Nghynllun Gweithredu Rheoli Risg Cymunedol 2025-2026, a gyflwynwyd i'r Aelodau yng nghyfarfod yr Awdurdod ar 28 Ebrill 2025.

3 Mae'r mesurau gwella yn destun archwiliad gan Archwilio Cymru, sy'n gorfod adrodd ynghylch a yw'r Awdurdod wedi cyflawni ei gyfrifoldebau o dan adrannau 17 ac 19 y Mesur.

ARGYMHELLIAD

4 Argymhellir bod yr Aelodau'n:

i) Nodi'r llythyr archwilio sy'n cadarnhau bod yr Awdurdod wedi cyflawni ei gyfrifoldebau o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

CEFNDIR

5 Mae'n ofynnol i Awdurdodau Tân ac Achub yng Nghymru gyhoeddi amcanion gwella yn unol â'r Mesur, ac amcanion llesiant i gydymffurfio â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. At ddibenion prosesau cynllunio'r Awdurdod mae'r rhain yn cael eu trin fel yr un pethau.

6 Mae'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod:

- Wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth arfer ei swyddogaethau.
- Gwneud trefniadau i sicrhau bod ei amcanion gwella'n cael eu cyflawni; a
- Gwneud trefniadau i arfer ei swyddogaethau fel bod unrhyw safon perfformiad a bennir gan Weinidogion Cymru yn cael ei bodloni.

GWYBODAETH

7 Mae CRhRC 2025-26 yn nodi amcanion yr Awdurdod, ac fe'u cymeradwywyd gan yr Aelodau yng nghyfarfod 28 Ebrill 2025. Mae'n destun adolygiad archwilio gan Archwilio Cymru, sy'n gorfod cadarnhau a yw'r Awdurdod wedi cyflawni ei gyfrifoldebau mewn perthynas â'r mesurau gwella.

8 Mae'r llythyr archwilio a nodir yn Atodiad 1 yn cadarnhau bod Archwilio Cymru wedi gorffen ei waith a'i fod yn fodlon bod yr Awdurdod wedi cyflawni ei gyfrifoldebau.

GOBLYGIADAU

Amcanion Llesiant	Mae'r adroddiad hwn yn cadarnhau bod yr Awdurdod wedi cyflawni ei rwymedigaethau statudol o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009
Cyllideb	Mae'r mesurau gwella a nodir yn CRhRC 2024-2029 a Chynllun Gweithredu Rheoli Risg Cymunedol 2025-2026 wedi'u seilio ar y broses gynllunio ariannol
Cyfreithiol	Mae adroddiad Archwilio Cymru yn cadarnhau bod yr Awdurdod wedi cyflawni ei rwymedigaethau statudol.
Staffio	Dim
Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg	Dim
Risgiau	Mae'r gwaith datblygu ar CRhRC 2024-2029 yn ystyried y risgiau sy'n wynebu'r Awdurdod.

Cyfeirnod: 5033A2025

Dyddiad cyhoeddi: Awst 2025

Archwiliad o Gynllun Gwella 2025-26 Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru

Mae Cylchlythyr Gwasanaeth Tân ac Achub Cymru rhif: W-FRSC(2021)07 yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Tân ac Achub yng Nghymru barhau i adrodd yn erbyn Mesur Llywodraeth Leol 2009 nes bod Fframwaith Cenedlaethol newydd a threfniadau diwygiedig wedi'u cyflwyno. Mae Cylchlythyr Gwasanaeth Tân ac Achub Cymru rhif: W-FRSC(2025)09 yn caniatáu i Awdurdodau gyflawni eu dyletswyddau cynllunio o dan y Mesur a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 o fewn yr un cynllun. Ardystiolais y cynllun hwn ym mis Gorffennaf 2024 hefyd.

Tystysgrif

Rwy'n ardystio, ar ôl ei gyhoeddi ym mis Gorffennaf 2024, fy mod wedi archwilio Cynllun Gwella Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) yn unol ag adran 17 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur) a'm Cod Ymarfer Archwilio.

O ganlyniad i'm harchwiliad, credaf fod yr Awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 15(6) i (9) o'r Mesur ac wedi gweithredu yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru yn ddigonol i gyflawni ei ddyletswyddau.

Cyfrifoldebau priodol yr Awdurdod a'r Archwilydd Cyffredinol

O dan y Mesur, mae'n ofynnol i'r Awdurdod baratoi a chyhoeddi Cynllun Gwella sy'n disgrifio ei gynlluniau i gyflawni ei ddyletswyddau er mwyn:

- gwneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth arfer ei swyddogaethau;
- gwneud trefniadau i sicrhau cyflawni ei amcanion gwella; a
- gwneud trefniadau i arfer ei swyddogaethau fel bod unrhyw safon berfformiad a bennir gan Weinidogion Cymru yn cael ei bodloni.

Mae'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod gyhoeddi ei Gynllun Gwella cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl dechrau'r flwyddyn ariannol y mae'n ymwneud â hi, neu ar ôl y dyddiad arall y caiff Gweinidogion Cymru ei bennu drwy orchymyn.

Yr Awdurdod sy'n gyfrifol am baratoi'r Cynllun Gwella ac am y wybodaeth a nodir ynddo. Mae'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod roi sylw i ganllawiau a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru wrth baratoi a chyhoeddi ei gynllun.

Fel archwilydd yr Awdurdod, mae'n ofynnol i mi o dan adrannau 17 a 19 o'r Mesur gynnal archwiliad o'r Cynllun Gwella, ardystio fy mod wedi gwneud hynny, ac adrodd a wyf yn credu bod yr Awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau i baratoi a chyhoeddi Cynllun Gwella yn unol â gofynion statudol a nodir yn adran 15 a chanllawiau statudol.

Cwmpas archwiliad y Cynllun Gwella

At ddibenion fy ngwaith archwilio, byddaf yn derbyn, ar yr amod y bydd awdurdod yn bodloni ei ofynion statudol, y bydd hefyd wedi cydymffurfio â chanllawiau statudol Llywodraeth Cymru yn ddigonol i gyflawni ei ddyletswyddau.

Ar gyfer yr archwiliad hwn, nid yw'n ofynnol i mi ffurfio barn ar gyflawnrwydd neu gywirdeb gwybodaeth, nac a ellir cyflawni'r Cynllun Gwella a gyhoeddwyd gan yr Awdurdod. Roedd fy archwiliad o Gynllun Gwella'r Awdurdod, felly, yn cynnwys adolygiad o'r cynllun i ganfod a oedd yn cynnwys elfennau a ragnodir mewn deddfwriaeth. Asesais hefyd a oedd y trefniadau ar gyfer cyhoeddi'r cynllun yn cydymffurfio â gofynion y ddeddfwriaeth, a bod yr Awdurdod wedi ystyried canllawiau statudol wrth baratoi a chyhoeddi ei gynllun.

Ni ellir dibynnu ar y gwaith yr wyf wedi'i wneud er mwyn adrodd a gwneud argymhellion yn unol ag adrannau 17 a 19 o'r Mesur yn unig i nodi'r holl wendidau neu gyfleoedd i wella.



Adrian Crompton

Archwilydd Cyffredinol Cymru

CC: Ysgrifennydd y Cabinet dros Tai a Llywodraeth Leol

Tim Buckle – Rheolwr Archwilio

This document is available in English

Eitem Agenda 9

Adroddiad i	**Y Pwyllgor Archwilio**
Dyddiad	**15 Medi 2025**
Swyddog Arweiniol	**PSTC Helen MacArthur**
Swyddog Cyswllt	**Elgan Roberts, Pennaeth Cyllid**
Pwnc	**Deddf Troseddau Economaidd a Thryloywder Corfforaethol 2023**

PWRPAS YR ADRODDIAD

1 Rhoi sicrwydd i'r Pwyllgor Archwilio bod Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (y Gwasanaeth) yn cydymffurfio â'r drosedd statudol newydd o fethu ag atal twyll o dan Ddeddf Troseddau Economaidd a Thryloywder Corfforaethol 2023, ac amlinellu'r rheolaethau, yr hyfforddiant a'r dulliau llywodraethiant sydd ar waith i liniaru'r risg o dwyll.

CRYNODEB GWEITHREDOL

2 Mae Deddf Troseddau Economaidd a Thryloywder Corfforaethol 2023 yn cyflwyno trosedd gorfforaethol newydd o fethu ag atal twyll o 1 Medi 2025.

3 Mae'r Gwasanaeth wedi adolygu ei fframwaith llywodraethiant ac wedi cyflwyno gweithdrefnau cymesur i atal twyll, gan gynnwys rheolaethau ariannol wedi'u diweddaru, tryloywder caffael, gwelliannau i'r gofrestr risg, a hyfforddiant ymwybyddiaeth o dwyll wedi'i dargedu. Mae'r mesurau hyn yn rhoi sicrwydd bod y Gwasanaeth yn bodloni ei rwymedigaethau o dan y Ddeddf.

ARGYMHELLIAD

4 Argymhellir bod yr Aelodau'n:

i) Nodi cydymffurfiaeth y Gwasanaeth â dyletswydd atal twyll Deddf Troseddau Economaidd a Thryloywder Corfforaethol 2023; ac yn

ii) Nodi'r set bresennol o reolaethau a hyfforddiant gwrth-dwyll.

CEFNDIR

5 Mae Deddf Troseddau Economaidd a Thryloywder Corfforaethol 2023 yn cyflwyno trosedd newydd lle gall sefydliadau mawr gael eu dal yn droseddol atebol os ydynt yn methu ag atal twyll a gyflawnir gan weithwyr neu bobl gysylltiedig er budd y sefydliad.

6 Mae sefydliadau sydd â dros 250 o weithwyr a throsiant dros £36 miliwn neu £18 miliwn mewn asedau yn dod o fewn cwmpas y Ddeddf. Mae'r Gwasanaeth yn bodloni'r trothwyon hyn ac felly mae'n ddarostyngedig i'r ddeddfwriaeth newydd.

GWYBODAETH

7 Mae parodrwydd y Gwasanaeth i dderbyn risg mewn perthynas â risgiau cyfreithiol ac ariannol yn finimol a gofalus. Adlewyrchir hyn yn ei ymrwymiad i adolygu a mireinio prosesau mewnol yn rheolaidd, ac i sicrhau cydymffurfiaeth barhaus.

8 Mae cofrestr risg y Gwasanaeth wedi'i diweddaru i adlewyrchu'r mesurau lliniaru ar gyfer risgiau sy'n gysylltiedig â thwyll. Y sgôr risg gros oedd 16 (uchel), ond ar ôl cyflwyno rheolaethau sydd wedi'u hymgorffori mewn systemau, llifau gwaith, a pholisïau, mae'r sgôr risg presennol wedi gostwng i 9 (canolig-uchel).

9 Mae'r gwelliannau'n cael eu sbarduno gan ganfyddiadau adolygiadau cymheiriaid, argymhellion archwilio mewnol, a chraffu gan archwilio allanol. Mae'r mecanweithiau hyn yn sicrhau bod y Gwasanaeth yn parhau i ymateb i fygythiadau sy'n dod i'r amlwg ac arferion gorau'r sector, ac yn cynnal rheolaethau ariannol cymesur a chadarn ar yr un pryd.

10 Mae'r Gwasanaeth wedi cyflwyno cyfres o weithdrefnau cymesur i fodloni ei rwymedigaethau statudol o dan y Ddeddf, a'r drosedd o fethu ag atal twyll yn benodol. Mae'r gweithdrefnau hyn wedi'u cynllunio i atal, canfod, ac ymateb i weithgarwch twyllodrus a gyflawnir gan weithwyr neu bobl gysylltiedig er budd y sefydliad.

11 Mae'r Rheoliadau Ariannol wedi'u diweddaru yn ymgorffori trefniadau llywodraethiant clir, gan gynnwys terfynau awdurdod dirprwyedig, llwybrau archwilio, a goruchwyliaeth ariannol uwch.

12 Mae'r Gwasanaeth yn gweithredu gyda deiliaid cyllidebau penodedig ar gyfer yr holl brosiectau cyfalaf a gwariant refeniw. Mae'r llywodraethiant yn cael ei gyflawni trwy'r Pwyllgor Cyllid a Chaffael. Mae'r tîm cyllid yn datblygu dangosfwrdd ariannol i wella tryloywder a chefnogi deiliaid cyllidebau i fonitro eu hadnoddau.

13 Mae'r rheolaethau caffael wedi'u cryfhau drwy gyfrwng Strategaeth Gaffael Gwasanaethau Tân ac Achub Cymru 2025–30, a gymeradwywyd gan Bwyllgor Archwilio'r Awdurdod ym mis Mehefin 2025. Cymeradwywyd y Rheolau Gweithdrefn Contractau ar 17 Mawrth 2025. Mae'r rhain yn egluro'r defnydd o fframweithiau'r sector cyhoeddus lle bo hynny'n berthnasol, gan sicrhau prisio cystadleuol a chydymffurfiaeth â'r gyfraith gaffael. Pan fo angen gwneud dyfarniadau uniongyrchol, mae'r rhain yn cael eu cefnogi gan gyfiawnhad a goruchwyliaeth sydd wedi'u dogfennu. Mae'r protocolau rheoli contractau wedi'u diweddaru i sicrhau tryloywder ac atebolrwydd trwy gydol y cylch bywyd caffael.

14 Mae hyfforddiant ymwybyddiaeth o dwyll wedi cael ei ddarparu a bydd yn parhau i gael ei ddarparu mewn partneriaeth â darparwyr bancio'r Gwasanaeth. Mae'r hyfforddiant hwn yn canolbwyntio ar fygythiadau cyffredin fel gwe-rwydo, dynwared, a dargyfeirio taliadau.

15 Yn ogystal, mae modiwl e-ddysgu CIPFA ar ymwybyddiaeth o dwyll wedi'i gyflwyno i staff cyllid a chaffael. Mae'n rhoi trosolwg o dwyll: beth ydyw, sut y gellir ei adnabod, a sut y gellir ei osgoi. Mae'r rhaglenni hyfforddi hyn wedi'u hymgorffori mewn arfarniadau staff ac maent yn cefnogi diwylliant o wyliadwriaeth ac atebolrwydd.

16 Er bod cynnydd sylweddol wedi'i wneud o ran cryfhau rheolaethau ac ymgorffori mesurau atal twyll, mae'r Gwasanaeth yn parhau i fod yn ymrwymedig i welliant parhaus. Mae ein statws 'gofalus' o ran ein parodrwydd i dderbyn risgiau ariannol yn sicrhau bod prosesau'n cael eu hadolygu'n rheolaidd. Yn rhan o waith blaengynllunio, bydd y trefniadau Parhad Busnes ar gyfer 2026 yn cynnwys ymarfer pwrpasol sy'n canolbwyntio ar ymateb i weithgarwch twyllodrus.

GOBLYGIADAU

Amcanion Llesiant	Mae'n cefnogi llywodraethiant moesegol ac ymddiriedaeth y cyhoedd o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru).
Cyllideb	Mae costau hyfforddi a chydymffurfio yn cael eu hamsugno o fewn dyraniadau presennol. Ni nodwyd unrhyw bwysau cyllidebol ychwanegol.
Cyfreithiol	Mae'r Gwasanaeth o fewn cwmpas y drosedd o dan Ddeddf Troseddau Economaidd a Thryloywder Corfforaethol 2023 ac mae wedi cyflwyno gweithdrefnau cymesur i liniaru atebolrwydd.
Staffio	Mae hyfforddiant wedi'i integreiddio yng nghynlluniau datblygu staff. Mae diffiniadau rôl clir a strwythurau llywodraethiant yn cefnogi atal twyll.
Cydraddoldeb / Hawliau Dynol / Y Gymraeg	Mae'r deunyddiau hyfforddi a'r dogfennau llywodraethiant yn ddwyieithog ac yn gynhwysol.
Risgiau	Mae'r holl risgiau uchel ac uchel iawn yn cael eu rheoli'n weithredol trwy'r gofrestr risg strategol. Nid oes unrhyw risgiau newydd sy'n gysylltiedig â thwyll wedi dod i'r amlwg ers y cyfnod adrodd diwethaf.

This document is available in English

Eitem Agenda 10

Adroddiad i	**Y Pwyllgor Archwilio**
Dyddiad	**15 Medi 2025**
Swyddog Arweiniol	**PSTC Helen MacArthur**
Swyddog Cyswllt	**Elgan Roberts, Pennaeth Cyllid**
Pwnc	**Rheoliadau Ariannol wedi'u Diweddaru**

PWRPAS YR ADRODDIAD

1 Rhoi gwybod i'r Pwyllgor Archwilio am yr adolygiad a'r diweddariad a drefnwyd i Reoliadau Ariannol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod), a gymeradwywyd yn wreiddiol ym mis Mawrth 2022, ac amlinellu'r newidiadau allweddol a gyflwynwyd yn y diwygio a fu yn 2025.

CRYNODEB GWEITHREDOL

2 Cafodd y Rheoliadau Ariannol eu diwygio yn 2022 ac maent i fod i gael eu hadolygu ar ôl tair blynedd. Mae'r adolygiad ar gyfer 2025 yn ddiweddariad cynhwysfawr â'r nod o symleiddio'r ddogfen, moderneiddio ei darpariaethau, a chyd-fynd â'r safonau deddfwriaethol a thechnolegol presennol. Mae'r fersiwn ddiwygiedig (v3.0) yn cael ei chyflwyno i'w chymeradwyo.

ARGYMHELLIAD

3 Argymhellir bod yr Aelodau'n:

i) Cymeradwyo'r Rheoliadau Ariannol wedi'u diweddaru ac yn argymell bod yr Awdurdod yn eu cymeradwyo.

CEFNDIR

4 Mae'r Rheoliadau Ariannol yn darparu'r fframwaith ar gyfer llywodraethiant, atebolrwydd, a stiwardiaeth ariannol ar draws yr Awdurdod. Cyhoeddwyd fersiwn 2022 (v2.0) gyda dyddiad adolygu wedi'i drefnu ar gyfer 31 Mawrth 2025. Mae'r fersiwn wedi'i diweddaru (v3.0) wedi'i pharatoi gan y Pennaeth Cyllid a'i hadolygu gan y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol sy'n gyfrifol am Gyllid ac Adnoddau.

GWYBODAETH

5 Mae fersiwn 3.0 wedi symleiddio'r ddogfen ac yn sicrhau ei bod yn parhau i fod yn berthnasol mewn tirwedd ariannol a rheoleiddiol sy'n esblygu'n gyflym. Mae'r strwythur wedi'i fireinio i wella eglurder a defnyddioldeb, gan ddileu adrannau diangen a chyfuno'r canllawiau.

6 Cafodd y darpariaethau eu moderneiddio, gydag adrannau newydd wedi'u hychwanegu i adlewyrchu arferion ariannol cyfoes, gan gynnwys:

- **Bancio Digidol a Diogelwch Taliadau:** Cydymffurfio â Dilysu Cwsmeriaid Cryf (SCA) a Rheoliadau Gwasanaethau Talu 2017.
- **Cydymffurfio ag IFRS 16:** Gwell canllawiau ar brydlesu asedau a chyfrifyddu hawl-i-ddefnyddio.
- **Atal Twyll a Thryloywder Corfforaethol:** Cyd-fynd â Deddf Troseddau Economaidd a Thryloywder Corfforaethol 2023, gan gynnwys cofrestrau perchnogaeth lesiannol a mwy o ddiwydrwydd dyladwy.

7 Yn unol ag arferion llywodraethiant da, bydd y Rheoliadau Ariannol yn destun adolygiad pellach dair blynedd wedi'r dyddiad cymeradwyo, neu'n gynharach os yw hynny'n ofynnol yn sgil newidiadau deddfwriaethol neu weithredol.

GOBLYGIADAU

Amcanion Llesiant	Cefnogi llywodraethiant a stiwardiaeth ariannol dda, gan gyfrannu at gynaliadwyedd hirdymor.
Cyllideb	Dim goblygiadau ariannol uniongyrchol, ond gall gwell rheolaethau leihau amlygiad i dwyll ac aneffeithlonrwydd.
Cyfreithiol	Mae'n sicrhau cydymffurfiaeth â dyletswyddau statudol o dan y Deddfau Llywodraeth Leol, Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio, a deddfwriaeth ddiweddar ar droseddau economaidd.
Staffio	Mae'n gofyn am ymwybyddiaeth a chydymffurfiaeth ar draws pob adran; bydd hyfforddiant yn cael ei ddarparu lle bo angen.
Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg	Nid oes unrhyw effaith andwyol wedi'i nodi.
Risgiau	Mae'r adolygiad yn lliniaru risgiau sy'n gysylltiedig â gweithdrefnau sydd wedi dyddio, diffyg cydymffurfio, ac afreoleidd-dra ariannol.



Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru
Rheoliadau Ariannol

Ar ôl ei hargraffu, mae hon yn ddogfen na ellir ei rheoli. Mae'r holl ddefnyddwyr yn gyfrifol am wirio i gadarnhau mai dyma'r fersiwn gyfredol cyn ei defnyddio.

Cynnwys

1 Cyflwyniad a Chydymffurfiaeth 4
2 Gweinyddu Materion Ariannol. 5
2.1 Cyfrifoldeb 5
2.2 Rheoli Risg Ariannol 6
2.3 Rheolaethau Mewnol ac Archwilio Mewnol 6
3 Cynllunio Ariannol 8
3.1 Blaengynllunio 8
4 Rheolaethau ac Adroddiadau Ariannol 9
4.1 Rheoli Cyllidebol 9
4.2 Ymdrin â Gorwariant ar y Cyllidebau Refeniw 10
4.3 Rhaglen Gyfalaf 10
4.4 Trosglwyddiadau Cyllidebol 11
4.5 Datganiad o Gyfrifon Blynyddol 11
4.6 Cronfeydd Wrth Gefn 12
4.7 Darpariaethau 12
5 Caffael a Gwariant 13
5.1 Contractau 13
5.2 Archebion ar gyfer Nwyddau, Gwaith, a Gwasanaethau 13
5.3 Awdurdodi Gwariant 15
5.4 Taliadau i Gyflenwyr 16
5.5 Cardiau Credyd Corfforaethol 17
5.6 Cyfrifon Imprest 17
6 Incwm 18
7 Bancio 20
8 Staffio 21
8.1 Sefydlu 21
8.2 Cyflogaeth Eilaidd 21
8.3 Y Gyflogres 21
8.4 Teithio a Chynhaliaeth 22
9 Adnoddau 23
9.1 Diogelwch 23
9.2 Yswiriant 23
9.3 Cyfrifiadura a Thechnoleg Gwybodaeth 24

9.4 Stociau, Storfeydd, a Rhestrau Stoc 24
9.7 Prydlesu Asedau a Chydymffurfiaeth ag IFRS 16 26
10 Rheoli Trysorlys 27
10.1 Strategaeth Gyfalaf 27
10.2 Strategaeth a Chynllun Rheoli'r Trysorlys 27
11 Treth ar Werth (TAW) 28
11.1 Cofnodion 28
11.2 Treth Mewnbwn 28
11.3 Treth Allbwn 28
11.4 Cadw Dogfennau 28
12 Atal Afreoleidd-dra Ariannol 29
12.1 Atal Twyll, Atal Gwyngalchu Arian, a Thryloywder Corfforaethol 29
12.2 Rhoddion, Grantiau i Gyrff Eraill, a Chyfraniadau 30
12.3 Cofrestr Buddiannau'r Aelodau 30
12.4 Datganiadau o Fuddiant 30
12.5 Rhoddion a Lletygarwch 30

1 Cyflwyniad a Chydymffurfiaeth

Y Rheoliadau Ariannol hyn sydd yn gosod y fframwaith ar gyfer llywodraethiant ariannol o fewn Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru ("yr Awdurdod"), gan sicrhau atebolrwydd, stiwardiaeth gadarn, ac uniondeb pan ddefnyddiwn arian cyhoeddus.

Maent yn berthnasol i bob Aelod, Aelod Cyfetholedig, swyddog, rheolwr a gweithiwr. At y dibenion hyn, mae'r swyddogion yn cynnwys Rheolwyr Gorsafoedd a'r swyddi uwch, ynghyd â Phenaethiaid/Dirprwy Benaethiaid Adran nad ydynt ar yr Ochr Weithredol.

Mae'r Pwyllgor Archwilio yn goruchwylio'r gwaith o adolygu'r Rheoliadau hyn. Mae'r Swyddog Adran 151 yn gyfrifol am eu gweithredu, am gyhoeddi gweithdrefnau ategol, ac am roi gwybod am unrhyw dramgwydd. Mae cyfeiriadau at "yr Awdurdod" yn cynnwys swyddogaethau a ddirprwywyd i'r Panel Gweithredol, y Pwyllgor Archwilio, neu'r Prif Swyddog Tân (Pennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig), gyda chefnogaeth y Swyddog Adran 151.

Rhaid i bob aelod personél ymgyfarwyddo â'r Rheoliadau hyn a sicrhau bod eu timau'n cydymffurfio â hwy. Gall y Swyddog Adran 151 gyhoeddi canllawiau ychwanegol lle bo angen.

Rhaid i Dîm Arweinyddol y Gwasanaeth sicrhau cydymffurfiaeth ar draws pob adran. Pan fo ansicrwydd, ceisiwch gyngor gan y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (Cyllid ac Adnoddau) a dilynwch fwriad a geiriad y Rheoliadau hyn.

Oni chydymffurfir â'r safonau a'r gweithdrefnau perthnasol gellid ystyried cymryd camau priodol. Ar gyfer gweithwyr, gallai hynny gynnwys cymryd camau dan weithdrefnau mewnol y Gwasanaeth, gan gynnwys prosesau disgyblu lle bo angen. Ar gyfer Aelodau ac Aelodau Cyfetholedig, byddai unrhyw bryderon yn cael eu datrys yn unol â Chod Ymddygiad yr Awdurdod. Mae'r mesurau hyn ar waith i gefnogi atebolrwydd ac i gynnal uniondeb fframwaith llywodraethiant y sefydliad.

2 Gweinyddu Materion Ariannol.

2.1 Cyfrifoldeb

2.1.1 Gall Swyddog Adran 151 gyhoeddi gweithdrefnau cyfrifyddu manwl a chanllawiau i gefnogi'r gwaith rheoli ariannol a wneir o ddydd i ddydd.

2.1.2 Y Prif Swyddog Tân a'r holl swyddogion sy'n gyfrifol am sicrhau cydymffurfiaeth â'r Rheoliadau Ariannol hyn ac â'r cyfarwyddiadau/llawlyfrau cysylltiedig. Rhaid hysbysu'r Swyddog Adran 151 os bydd unrhyw dramgwydd.

2.1.3 Penodir y Swyddog Adran 151 yn unol â'r ddeddfwriaeth a hwy sy'n cynghori'r Awdurdod a'i bwyllgorau ar bob mater sy'n effeithio ar gyllid a gweinyddiaeth ariannol yr Awdurdod.

2.1.4 Rhaid i'r holl gyfrifon y mae'n rhaid eu harchwilio yn ôl y ddeddfwriaeth gael eu cymeradwyo gan Swyddog Adran 151. Caiff y cofnodion ariannol atodol eu cadw, neu o dan drefniadau, eu cymeradwyo, gan y Swyddog Adran 151.

2.1.5 Mae gwaith a chyfrifoldebau'r Awdurdod, y Prif Swyddog Tân, y Swyddog Adran 151, y Swyddog Monitro, y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (Cyllid ac Adnoddau), a Phenaethiaid Adrannau wedi'u nodi yn Atodiad 1 – Matrics Cyfrifoldeb.

2.1.6 Dylid dilyn yr egwyddorion allweddol canlynol wrth ddyrannu dyletswyddau cyfrifyddu:

- Gwahanu dyletswyddau: Cyhyd ag y bo'n ymarferol, dylai'r gwaith o gyfrifo/gwirio/cofnodi symiau sy'n ddyledus i/gan yr Awdurdod gael ei wneud ar wahân i'r gwaith o gasglu neu dalu'r symiau hynny.
- Dirprwyo ac awdurdodi: Bydd y Prif Swyddog Tân, mewn ymgynghoriad â'r Swyddog Adran 151, yn enwebu swyddogion i drefnu ac i oruchwylio gwaith ariannol ac i ardystio dogfennau ariannol. Mae'r Cynllun Dirprwyo Ariannol yn cael ei gynnal gan y Pennaeth Cyllid.
- Ymgynghori ar effaith ariannol: Rhaid i'r Prif Swyddog Tân ddweud wrth y Swyddog Adran 151 am unrhyw fater sy'n effeithio ar gyllid yr Awdurdod. Nid aiff unrhyw adroddiad ar faterion o'r fath i'r Aelodau oni ymgynghorir arno o flaen llaw â'r Swyddog Adran 151 i drafod y goblygiadau ariannol yn llawn. Rhaid i'r Swyddog Adran 151 (neu ei gynrychiolydd) gael yr wybodaeth angenrheidiol a chael mynediad at ddogfennau ac adroddiadau.

- Cadw cofnodion: Fel arfer, cedwir cofnodion ariannol am chwe blynedd ariannol gyflawn ynghyd â'r flwyddyn gyfredol, oni fydd gofynion penodol (e.e. amodau grant) yn gosod terfynau gwahanol.

2.2 Rheoli Risg Ariannol

2.2.1 Mae'r Awdurdod yn cydnabod y gall risgiau effeithio ar gyflwyno'r wasanaethau ac ar gyflawniad amcanion.

2.2.2 Mae risg yn golygu'r posibilrwydd o golled, difrod neu anaf o ganlyniad i ddigwyddiad diangen neu ansicr. Rheoli risg yw'r defnydd o ddull cynlluniedig a systematig i nodi, gwerthuso, a rheoli risg.

2.2.3 Mae'r Panel Gweithredol yn ystyried adroddiad ar y Gofrestr Risg bob blwyddyn, gan adolygu unrhyw newidiadau sylweddol o ran risg a chan fonitro effeithiolrwydd y rheolaethau sydd ar risgiau allweddol.

2.2.4 Mae'r Swyddog Adran 151 yn sicrhau bod trefniadau ar waith i nodi, asesu, cofnodi, adrodd a monitro risgiau ariannol, a bod y rhain yn cael eu hadlewyrchu yn y Gofrestr Risg Gorfforaethol ynghyd â'u rheolaethau/lliniariadau cysylltiedig.

2.2.5 Mae proses y gyllideb yn ystyried risgiau ariannol ac yn eu cynnwys fel rhan o'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig (MTFS).

2.3 Rheolaethau Mewnol ac Archwilio Mewnol

2.3.1 Rhaid i'r Awdurdod gynnal trefniadau priodol ar gyfer gweinyddu ei faterion ariannol ac i sicrhau bod system reolaeth fewnol ddigonol ar waith.

2.3.2 Mae rheolaeth fewnol yn cynnwys systemau rheoli sydd wedi'u cynllunio i gyflawni amcanion yn economaidd, yn effeithlon, ac yn effeithiol, ac i ddiogelu asedau a buddiannau.

2.3.3 Bob blwyddyn, mae Archwilwyr Mewnol yr Awdurdod yn rhoi barn ar fodolaeth ac ar ddigonolrwydd y rheolaethau mewnol ac yn gweithredu yn unol â'r safonau archwilio proffesiynol cyfredol.

2.3.4 Mae cyfrifoldebau Archwilio Mewnol yn cynnwys adolygu, gwerthuso a rhoi adroddiadau ynghylch:

- pa mor gadarn a digonol yw'r rheolaethau ariannol a rheoli a sut cânt eu cymhwyso.
- cydymffurfiaeth â pholisïau, cynlluniau, a gweithdrefnau perthnasol.
- i ba raddau y mae asedau a buddiannau'n cael eu cyfrif a'u diogelu rhag twyll, gwastraff, gormodedd, gweinyddiaeth aneffeithlon, neu golled arall.
- addasrwydd a dibynadwyedd gwybodaeth ariannol a rheoli.

2.3.5 Mae hawliau mynediad Archwilio Mewnol (a'r Swyddog Adran 151 a'i ddirprwy, pan nodir hynny) yn cynnwys yr hawl i:

- gael mynediad i unrhyw leoliad gweithredol neu weinyddol sydd gan yr Awdurdod ar ôl profi pwy ydyn nhw.
- archwilio, copïo, neu gadw unrhyw gofnodion sy'n ymwneud â'r cyfrifon a'r weinyddiaeth ariannol (gan gynnwys mynediad annibynnol at systemau ac allbynnau perthnasol).
- gofyn am wybodaeth ac esboniadau gan unrhyw weithiwr.
- gofyn i unrhyw weithiwr gynhyrchu neu gyfrif am arian parod, storfeydd, neu eiddo arall yr Awdurdod a roddwyd yn eu meddiant.
- archwilio gwaith neu wasanaethau a gyflawnir i'r Awdurdod gan weithwyr neu gontractwyr ac unrhyw nwyddau a brynir neu a gyhoeddir o stoc.

2.3.6 Os gwelir neu amheuir unrhyw afreoleidd-dra sy'n ymwneud ag arian parod, storfeydd, eiddo, neu weinyddiaeth ariannol, rhaid hysbysu'r Swyddog Adran 151 ar unwaith, a byddan nhw'n ymchwilio ac yn rhoi adroddiad priodol, mewn ymgynghoriad â'r Prif Swyddog Tân a'r Swyddog Monitro.

2.3.7 Mae'r Pwyllgor Archwilio yn penodi Archwilwyr Mewnol, yn cymeradwyo'r rhaglen waith Archwilio Mewnol, ac yn ystyried adroddiadau Archwilio Mewnol a'r adroddiad blynyddol.

2.4 Archwilio Allanol

2.4.1 Penodir archwilwyr allanol gan Archwilio Cymru o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004. Caiff eu dyletswyddau eu harwain gan Archwilydd Cyffredinol Cymru drwy'r Cod Ymarfer Archwilio, sy'n amlinellu egwyddorion a gofynion ar gyfer:

- Archwilio datganiadau ariannol; a
- Gwerthuso trefniadau ar gyfer sicrhau economi ac effeithlonrwydd.

2.4.2 Gall yr Awdurdod hefyd fod yn destun archwiliad, arolwg, neu ymchwiliad gan gyrff statudol fel Cyllid a Thollau EF a Llywodraeth Cymru.

3 Cynllunio Ariannol

3.1 Blaengynllunio

3.1.1 Bob blwyddyn, bydd y Swyddog Adran 151 yn rhoi cyflwyniad i'r Awdurdod ar y sefyllfa ariannol bresennol a'r ffactorau sy'n debygol o effeithio ar drefniadau ariannol yn y dyfodol. Mae hyn yn cynnwys risgiau, ansicrwydd, a phenderfyniadau ar y ddarpariaeth o wasanaeth neu flaenoriaethau.

3.1.2 Bydd yr arfarniad yn cwmpasu rhagdybiaethau cynllunio refeniw a chyfalaf ac yn llywio'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig (MTFS).

3.1.3 Gellir darparu arfarniadau ychwanegol yn ystod y flwyddyn os penderfyna'r Swyddog Adran 151 eu bod yn angenrheidiol.

3.2 Cyllideb Refeniw a Chyfalaf

3.2.1 Cyn dechrau pob blwyddyn ariannol, ac yn unol â'r amserlenni statudol, bydd y Swyddog Adran 151 (mewn ymgynghoriad â'r Prif Swyddog Tân a'r swyddogion perthnasol) yn cyflwyno:

- y gyllideb refeniw arfaethedig ar gyfer y flwyddyn i ddod.
- y rhaglen gyfalaf ar gyfer y flwyddyn i ddod.
- cynllun Ariannol Tymor Canolig sy'n cwmpasu'r ddwy flynedd nesaf.

3.2.2 Rhaid i'r cyflwyniad gynnwys:

- incwm a gwariant disgwyliedig.
- risgiau ac ansicrwydd materol.
- goblygiadau ariannol unrhyw newidiadau arfaethedig i'r gwasanaeth.
- costau ariannu cyfalaf a'r gofynion ariannu a ragwelir.

3.2.3 Bydd yr Awdurdod yn adolygu ac yn cymeradwyo'r cynlluniau hyn; ni ellir dirprwyo'r hawl i gymeradwyo i swyddogion.

3.2.4 Ni chaniateir unrhyw ymrwymiad ariannol nes cânt eu cymeradwyo gan yr Awdurdod a bod yr adnoddau wedi'u cadarnhau.

3.2.5 Bydd y Swyddog Adran 151 yn rhoi adroddiad o berfformiad yn erbyn y cyllidebau cymeradwy ar ddiwedd Ch2, Ch3 a Ch4 yng nghyfarfod yr Awdurdod.

4 Rheolaethau ac Adroddiadau Ariannol

4.1 Rheoli Cyllidebol

4.1.1 Y Swyddog Adran 151 sydd â'r prif gyfrifoldeb am drefniadau rheoli cyllidebol. Bydd y Prif Swyddog Tân yn cadw cynllun dirprwyo ar gyfer rheoli, monitro, a rhoi adroddiadau ar y gyllideb o ddydd i ddydd.

4.1.2 Bydd y Swyddog Adran 151 a'r Prif Swyddog Tân yn monitro'r gyllideb gymeradwy, yn ymchwilio i unrhyw amrywiadau, ac yn rhoi adroddiad i'r Awdurdod ym mhob cyfarfod, gan gynnwys rhoi crynodeb o'r penawdau gwariant allweddol a sylwebaeth ar eitemau arwyddocaol.

4.1.3 Mae'r Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (Cyllid ac Adnoddau) a'r Pennaeth Cyllid yn goruchwylio'r gwaith a wneir i fonitro ac adrodd o ddydd i ddydd ac yn sicrhau bod y gyllideb yn gytbwys.

4.1.4 Rhaid i ddeiliaid cyllidebau reoli incwm a gwariant yn eu meysydd, gan ddarparu gwybodaeth gyflawn a chywir ar gyfer adroddiadau, a chan gymryd camau i osgoi gorwariant.

4.1.5 Rhaid i bob swyddog sy'n ymrwymo i wariant neu'n codi/casglu incwm gydymffurfio â'r Rheoliadau Ariannol, y gweithdrefnau, a Rheolau'r Weithdrefn Contractau.

4.1.6 Bydd y Swyddog Adran 151 yn cytuno ar ba mor aml y dylai'r Awdurdod gael adroddiad ar gynnydd ar y rhaglen gyfalaf.

4.2 Ymdrin â Gorwariant ar y Cyllidebau Refeniw

4.2.1 Rhaid i ddeiliaid cyllidebau graffu ar gyllidebau'n rheolaidd ac osgoi gorwariant. Pan nodir gorwariant, rhaid sefydlu'r hyn a'i achosodd, asesu ei effaith, a'i reoli'n briodol. Os oes pwysau'n dychwelyd **dro ar ôl tro** rhaid ei gynnwys mewn adroddiad i'r **cylch gosod cyllidebau**.

4.2.2 Pan ragwelir **gorwariant refeniw**, defnyddiwch y dull graddol canlynol (yn unol â'r **rheolau trosglwyddiadau** yn 4.4):



4.3 Rhaglen Gyfalaf

4.3.1 Er mwyn cael ei ystyried yn gyfalaf, rhaid i wariant fodloni'r meini prawf canlynol:

a) Rhaid iddo fod yn fwy na £10,000

b) Rhaid iddo greu ased sydd â manteision sy'n para am fwy na blwyddyn.

c) Rhaid iddo gydymffurfio â'r canllawiau yn y Cod CIPFA priodol.

4.3.2 Os amcangyfrifir bod gorwariant y cynllun yn ≥10% neu £50k (pa un bynnag sydd leiaf), rhaid gofyn am gymeradwyaeth gan y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (Cyllid ac Adnoddau) i ariannu'r gorwariant.

4.3.3 Os yw'r gorwariant yn <10% ac yn <£50k, bydd y PSTC (Cyllid ac Adnoddau) a'r Pennaeth Cyllid yn ei ystyried yng nghyd-destun y rhaglen yn ei gyfanrwydd, ac os ystyrir ei fod yn anochel, gallant drosglwyddo o raglenni eraill neu ei gyllido o refeniw neu falansau.

4.3.4 Mae enillion o warediadau >£10,000 yn cael eu trin fel derbynion cyfalaf; mae incwm arall yn refeniw. (Gweler adran 8.7 am weithdrefnau gwaredu.)

4.3.5 Pan fo'r tendr ar gyfer cynllun cyfalaf cyfan neu ran ohono yn **fwy na 10% neu £50k (pa bynnag un sydd leiaf) yn is** nag amcangyfrif y tendr, bydd y **gyllideb yn cael ei gostwng** i werth y tendr gwirioneddol.

4.4 Trosglwyddiadau Cyllidebol

4.4.1 Trosglwyddiad, neu *virement*, yw pan fo cyllideb yn cael ei throsglwyddo rhwng penawdau er mwyn adlewyrchu newid mewn gweithgaredd, i fynd i'r afael â diffygion/gwarged yn ystod y flwyddyn, neu i wella cyflawniad.

4.4.2 Bwriad y cynllun trosglwyddiadau yw rhoi hyblygrwydd i'r Prif Swyddog Tân gyflawni amcanion yr Awdurdod o fewn y gyllideb gyffredinol a gymeradwywyd gan yr Awdurdod.

4.4.3 Rhaid i drosglwyddiadau ddilyn Cynllun Dirprwyo Ariannol y Gwasanaeth a chânt eu cynnwys mewn adroddiadau monitro'r gyllideb i'r Awdurdod.

4.4.4 Dylai pob cynnig am drosglwyddiad fod yn destun rheolaeth ac ni ddylai:

- ddefnyddio cyllideb gyfalaf at ddibenion refeniw.
- cynyddu ymrwymiadau net yr Awdurdod yn y flwyddyn bresennol nac yn y blynyddoedd i ddod.
- effeithio ar brosiectau a ariennir gan grant/yn allanol oni cheir caniatâd y Swyddog Adran 151.

4.4.5 Bydd angen caniatâd yr Awdurdod ar gyfer defnyddio cronfeydd refeniw at ddibenion cyfalaf.

4.5 Datganiad o Gyfrifon Blynyddol.

4.5.1 Bydd Swyddog Adran 151 yn sicrhau bod y Datganiad o Gyfrifon yn cael ei gynhyrchu mewn da bryd ac yn gywir, a'i fod wedi'i baratoi yn unol â Chod Ymarfer CIPFA ar Gyfrifo ar gyfer Awdurdodau Lleol (DU) ac IFRS.

4.5.2 Bydd y Swyddog Adran 151 yn llofnodi ac yn dyddio'r Cyfrifon, gan gadarnhau eu bod yn cyflwyno sefyllfa ariannol a pherfformiad yr Awdurdod yn deg ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth.

4.5.3 Bydd y Swyddog Adran 151 yn gwneud trefniadau priodol ar gyfer archwilio allanol, gan gynnwys yr holl gynrychiolaethau angenrheidiol. Bydd adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Awdurdod ar sefyllfa/perfformiad ariannol a chanlyniad yr archwiliad allanol, gan gynnwys tystysgrif yr archwilydd ac unrhyw adroddiadau y cyfeirir atynt.

4.5.4 Yr Awdurdod sy'n gyfrifol am dderbyn ac am gymeradwyo'r Cyfrifon, er y gellir dirprwyo'r swyddogaeth hon i'r Panel Gweithredol lle bo hynny'n briodol.

4.5.5 Bydd y Cyfrifon sydd wedi'u harchwilio yn cael eu cyhoeddi ar wefan yr Awdurdod.

4.6 Cronfeydd Wrth Gefn

4.6.1 Cyflwynir y Strategaeth Cronfeydd Ariannol Wrth Gefn i'r Pwyllgor Archwilio a chaiff ei chymeradwyo gan yr Awdurdod.

4.6.2 Mae'r Swyddog Adran 151 yn gyfrifol am sicrhau bod cronfeydd wrth gefn yn cael eu cadw yn unol â'r Cod Ymarfer a'r Strategaeth.

4.6.3 Mae'r gwaith o greu, dileu, asesu digonolrwydd, a throsglwyddo i mewn/allan o gronfeydd wrth gefn yn cael ei ddirprwyo i Swyddog Adran 151 yr Awdurdod.

4.6.4 Caiff digonolrwydd y cronfeydd wrth gefn ei asesu gan y Swyddog Adran 151 bob blwyddyn o leiaf, fel rhan o'r broses o gau'r cyfrif a/neu'r broses gosod cyllideb.

4.6.5 Dylid cadw cofnodion cywir, sy'n manylu ar bwrpas, defnydd, a'r rhesymeg dros drafodion.

4.7 Darpariaethau

4.7.1 Mae darpariaethau yn ymwneud â rhwymedigaethau sy'n debygol ar ddyddiad y fantolen er bod ansicrwydd ynghylch yr amseriad neu'r swm. Mae darpariaethau yn rhoi swm o'r neilltu i dalu amcangyfrif o'r gost debygol yn y dyfodol.

4.7.2 Mae'r Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (Cyllid ac Adnoddau) a'r Pennaeth Cyllid yn gyfrifol am asesu a chyfrifo'r darpariaethau sydd wedi'u cynnwys yn y sefyllfa ariannol.

5 Caffael a Gwariant

5.1 Contractau

5.1.1 Rhaid i bob contract ar gyfer nwyddau, gwaith, neu wasanaethau gydymffurfio â Rheolau Gweithdrefn Contractau yr Awdurdod ynghyd ag unrhyw ffurf safonol ragnodedig o gontract. Nid yw'r Rheoliadau Ariannol hyn yn diwygio Rheolau'r Weithdrefn Contractau. Pan fo angen manylion y broses (llwybrau i'r farchnad, trothwyon, gwerthuso, hepgoriadau, amrywiadau, estyniadau), mae'r Rheoliadau yn drech na'r broses.

5.1.2 Bydd Swyddog Adran 151 yn gwneud trefniadau priodol ar gyfer cynnal cofrestr contractau a bydd dogfennau'r contract ar gael i'w harolygu. Bydd cofrestr gontractau gyflawn yn cael ei chynnal a bydd ar gael i'w harolygu; y Pennaeth Cyllid sydd yn cynnal y gofrestr a rhaid iddo gael copïau wedi'u llofnodi o'r holl gontractau.

5.1.3 Rhaid awdurdodi amrywiadau yn unol â'r Cynllun Dirprwyo Ariannol, a rhaid prosesu tystysgrifau talu/cyfrifon terfynol o dan drefniadau a gymeradwywyd gan y Swyddog Adran 151 (gan gynnwys contractau dan oruchwyliaeth trydydd partïon).

5.2 Archebion ar gyfer Nwyddau, Gwaith, a Gwasanaethau

5.2.1 Mae'r Swyddog Adran 151 yn gyfrifol am sicrhau bod trefniadau ar waith ar gyfer caffael nwyddau a gwasanaethau. Ni ddylid caffael unrhyw nwyddau na gwasanaethau heb archeb prynu swyddogol wedi'i gymeradwyo yn unol â'r Cynllun Dirprwyo Ariannol.

5.2.2 Rhaid cyhoeddi Archebion Swyddogol ar gyfer nwyddau, gwaith a gwasanaethau **cyn** i'r nwyddau, y gwaith neu'r gwasanaethau angenrheidiol gael eu derbyn, ac eithrio:

(i) lwfansau i Aelodau.
(ii) ad-daliadau cyflogeion (a delir trwy gyflogres).
(iii) pryniannau o gyfrifon imprest a chardiau credyd corfforaethol.
(iv) biliau cyfleustodau a thaliadau NNDR.
(v) gwaith adeiladu brys sydd wedi'i gofnodi ar system Desg Gymorth Cyfleusterau
e.e. – galw peiriannydd pan fo boeler yn torri. Bydd rhif gwaith yn cael ei ddarparu yn hytrach nag archeb prynu.

5.2.3 Rhaid cael cytundeb penodol rhwng y Prif Swyddog Tân a'r Swyddog Adran 151 ar gyfer unrhyw eithriadau eraill.

5.2.4 Mewn achosion brys gall cymeradwywyr awdurdodedig roi archeb llafar, ond rhaid ei gadarnhau gydag archeb ysgrifenedig cyn gynted â phosibl.

5.2.5 Rhaid i archebion prynu fod ar ffurf a gymeradwyir gan y Swyddog Adran 151 a rhaid iddynt:

(i) nodi natur a/neu faint y nwyddau, y gwaith neu'r gwasanaethau angenrheidiol ac unrhyw brisiau contract neu brisiau a gytunwyd.

(ii) cynnwys dyfynbrisiau/amcangyfrifon perthnasol i'r pryniant. system neu fanylion y cyfeirnod fframwaith neu gontract.

(iii) roi cyfarwyddyd y dylid cynhyrchu anfonebau i'r Awdurdod ar ôl cyflwyno'r nwyddau neu gwblhau'r gwaith neu'r gwasanaeth, neu fel y nodir fel arall.

5.2.6 Bydd cofnod o'r gweithwyr sydd ag awdurdod i gymeradwyo archebion yn cael ei gadw gan y Pennaeth Cyllid.

5.2.7 Pan fydd gweithiwr sydd ag awdurdod i gymeradwyo yn gadael swydd, rhaid i ddeiliad y gyllideb ddweud wrth yr adran gyllid er mwyn iddyn nhw atal hawl y gweithiwr i gymeradwyo archebion o gyllideb yr adran.

5.2.8 Rhaid i gymeradwywyr sicrhau bod angen, cydymffurfiaeth (statud, Rheolau Gweithdrefn Contract, Rheoliadau Ariannol), a darpariaeth o'r gyllideb ar gael cyn y cânt ymrwymo i wariant gan yr Awdurdod. Hefyd, mae angen cymeradwyaeth gan swyddog awdurdodedig pan wneir unrhyw newid i archeb yn unol â'r cynllun dirprwyo.

5.2.9 Ystyrir bod ardystiad y Prif Swyddog Tân, neu ei weithiwr awdurdodedig, yn cwmpasu'r materion canlynol:

(i) bod y prisiau yn unol â'r contract neu'r dyfynbris neu, os nad oes contract neu ddyfynbris, bod y prisiau yn rhesymol.

(ii) bod y gwariant wedi'i godio'n briodol o fewn cyfriflyfr ariannol yr Awdurdod.

(iii) bod y gwariant o fewn yr amcangyfrifon neu wedi'i gwmpasu gan ddarpariaeth ariannol arbennig ac yn unol â'r Rheoliadau Ariannol hyn.

(iv) pan fo archeb yn cynnwys Treth ar Werth, ei fod yn unol â rheoliadau CThEF:

(a) cadarnhad a yw'n gyflenwad trethadwy.

(b) ar gyfer taliadau i'r diwydiant adeiladu, bod derbynneb wedi'i dilysu i'w chael; neu

(c) bod derbynneb/anfoneb treth wedi'i chael pan wneir taliadau cyn y ceir y gwasanaethau/nwyddau dan sylw.

5.2.10 Bydd y Prif Swyddog Tân yn darparu manylion i'r Swyddog Adran 151 am unrhyw ymrwymiadau ariannol sydd heb eu cynnwys yn yr adroddiadau ar sefyllfa ariannol yr Awdurdod, a hynny ar ffurf ac ar amserlen gytunedig.

5.3 Awdurdodi Gwariant

5.3.1 Mae cymeradwyo'r cyllidebau refeniw a chyfalaf yn rhoi awdurdod i'r Prif Swyddog Tân i ysgwyddo gwariant angenrheidiol i gyflawni amcanion yr Awdurdod o fewn y cyllidebau dan sylw; rhaid i wariant beidio â bod yn fwy na'r cyfansymiau a gymeradwywyd oni cheir cymeradwyaeth yr Awdurdod ymlaen llaw. Rhaid i wariant fod yn gyfreithlon rhaid iddo gydymffurfio â'r Gweithdrefnau Rheoli Contract a'r Rheoliadau hyn, gyda chyfrifoldebau dyddiol yn cael eu dirprwyo gan y Swyddog Adran 151 a than eu goruchwyliaeth.

5.3.2 Bydd gweithlifau cymeradwyo yn dilyn systemau a gymeradwywyd gan y PSTC (Cyllid ac Adnoddau) a'r Pennaeth Cyllid, a nodir terfynau dirprwyo yn y Cynllun Dirprwyo Ariannol.

5.3.3 Mae'r dirprwyaethau o ddydd i ddydd wedi'u nodi yng Nghynllun Dirprwyo Ariannol y Gwasanaeth.

5.3.4 Pan amcangyfrifir bod cost eitem yn fwy na'r ddarpariaeth gyllideb, dylid rhoi gwybod i Swyddog Adran 151 neu i'r swyddog enwebedig fel a ganlyn:

- ar gyfer cynlluniau sy'n costio hyd at £100,000 – amrywiadau dros £10,000.
- ar gyfer cynlluniau sy'n costio dros £100,000 – amrywiadau dros £25,000.

5.3.5 Dylai tâl, pensiynau, rhoddion, neu enillion eraill a roddir i gyflogeion neu gyn-weithwyr yr Awdurdod fod yn unol â chytundebau rhwymol cenedlaethol neu leol neu fod wedi'u caniatáu gan benderfyniad a basiwyd gan yr Awdurdod ar faterion staffio. Ni fydd unrhyw daliadau ex-gratia yn cael eu gwneud heb gymeradwyaeth y Prif Swyddog Tân mewn ymgynghoriad â Swyddog Adran 151 neu'r Swyddog Monitro.

5.3.6 Pan fo'r Prif Swyddog Tân yn cynnig polisi newydd sydd ag angen am gymeradwyaeth yr Awdurdod, neu'n cynnig newid i bolisi presennol sydd eisoes wedi'i gymeradwyo gan yr Awdurdod, ni chânt ymrwymo i unrhyw wariant ar hyn nes cymeradwyir arfarniad ariannol ysgrifenedig gan yr Awdurdod.

5.3.7 Pan fo angen cymeradwyaeth gan gorff allanol i awdurdodi gwariant neu'r modd o ariannu gwariant, ni fydd unrhyw wariant o'r fath yn cael ei ysgwyddo nac incwm yn cael ei gasglu nes y ceir cymeradwyaeth ysgrifenedig gan y corff perthnasol.

5.3.8 Bydd yr holl renti, ffioedd, a thaliadau y mae'r Awdurdod yn eu derbyn, ac eithrio ail-daliadau a'r hyn a bennir gan statud neu gytundeb cyfreithiol rhwymol, yn cael eu pennu gan yr Awdurdod neu yn unol â threfniadau a gymeradwywyd gan yr Awdurdod.

5.4 Taliadau i Gyflenwyr

5.4.1 Mae'r Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (Cyllid ac Adnoddau) a'r Pennaeth Cyllid yn gyfrifol am oruchwylio'r gwaith o dalu credydwyr.

5.4.2 Bydd yr holl daliadau am nwyddau a gwasanaethau, ac eithrio taliadau imprest, yn cael eu gwneud gan ddefnyddio'r system ariannol ddynodedig a bydd y taliad yn cael ei wneud trwy drosglwyddiad electronig i gyfrif banc y cyflenwr.

5.4.3 Ni fydd unrhyw anfoneb yn cael ei thalu oni fydd yn dyfynnu rhif archeb swyddogol a bod y nwyddau/gwasanaethau â derbynneb ar y system ariannol a, pan fo'n berthnasol, bod nodyn dosbarthu/cyngor wedi'i lwytho.

5.4.4 Ar gyfer amgylchiadau â brys eithriadol, mae gan yr Awdurdod yr hawl i wneud taliad brys, er y bydd hynny'n arwain at ysgwyddo ffioedd banc ychwanegol. Bydd trefniadau arferol yn berthnasol pryd bynnag fo hynny'n bosibl. Rhaid i daliadau brys gael eu cymeradwyo gan y Pennaeth Cyllid a'u gweithredu gan yr Adran Gyllid.

5.4.5 Rhaid cael unrhyw awdurdod arbennig angenrheidiol cyn archebu unrhyw nwyddau neu wasanaethau, a rhaid i'r anfoneb gael ei nodi yn erbyn Cofnodion neu awdurdodiad arall.

5.4.6 Pan wneir taliad i is-gontractwr yn y diwydiant adeiladu sydd heb dystysgrif eithrio priodol, bydd taliad o'r fath yn cael ei drin fel un am lafur yn unig a bydd treth yn cael ei ddidynnu ar y gyfradd gyfredol, oni fydd yr is-gontractwr yn nodi'r deunyddiau'n glir a phan ystyrir bod elfen o'r fath yn rhesymol. Er mwyn cynorthwyo'r Awdurdod i gydymffurfio â'r Ddeddf Cyllid, dylai'r Awdurdod nodi'r anfoneb fel un sy'n daladwy i is-gontractwr pryd bynnag y bo modd.

5.4.7 Pan ganiateir diwygiad i anfoneb o dan y rheoliadau Treth ar Werth, dylid cofnodi llwybr archwilio clir i gadarnhau'r rhesymau dros hyn pan nad ydynt yn amlwg ar unwaith.

5.4.8 Ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol, fel sy'n ofynnol gan y Swyddog Adran 151, bydd y Prif Swyddog Tân yn rhestru'r holl gyfrifon sydd i'w cynnwys fel credydwyr yn y cyfrifon terfynol ar gyfer y flwyddyn honno.

5.4.9 Rhaid i bob taliad electronig gydymffurfio â Rheoliadau Gwasanaethau Talu 2017 (fel y'u diwygiwyd) a gofynion Dilysu Cwsmeriaid Cryf (SCA) y DU. Bydd yr Adran Gyllid yn sicrhau bod systemau talu wedi'u ffurfweddu i fodloni safonau dilysu aml-ffactor a bod staff wedi'u hyfforddi mewn arferion talu diogel.

5.5 Cardiau Credyd Corfforaethol

5.5.1 Mae'r Swyddog Adran 151 yn gyfrifol am sicrhau bod trefniadau ar waith mewn perthynas â'r defnydd o gardiau credyd corfforaethol.

5.5.2 Mae cardiau credyd corfforaethol yn cael eu cyhoeddi i alluogi swyddogion i wneud taliadau brys neu i brynu nwyddau sydd angen taliad ar unwaith – er enghraifft trwyddedau cronfa ffyrdd neu wasanaethau arlwyo mewn digwyddiadau. Ni ddylid defnyddio'r cardiau i osgoi Rheolau Weithdrefn Contractau na gofynion y Rheoliadau Ariannol hyn.

5.5.3 Mae'r Pennaeth Cyllid yn cynnal cofrestr deiliaid y cerdyn ac yn rheoli'r gwaith o'i weinyddu o ddydd i ddydd; rhaid i ddeiliaid cardiau ddilyn y Weithdrefn Cerdyn Prynu sy'n cwmpasu defnydd, derbynebau, codio a chysoni.

5.6 Cyfrifon Imprest

5.6.1 Mae'r Swyddog Adran 151 yn gyfrifol am drefniadau sy'n llywodraethu cyfrifon imprest (mân arian parod), dim ond ar gyfer mân wariant swyddogol y gellir eu hawdurdodi. Ni ddylid defnyddio cyfrifon imprest i dalu cyflogau, lwfansau, neu filltiroedd.

5.6.2 Mae angen cymeradwyaeth gan y Pennaeth Cyllid a'r deiliad enwebedig i ddefnyddio cyfrifon imprest. Rhaid i hawliadau am ad-daliadau ddilyn canllawiau a ffurflenni cymeradwy, gyda thalebau yn cael eu darparu ar gyfer pob taliad (ac anfonebau TAW lle bo hynny'n berthnasol). Rhaid i ddeiliaid:

- gadw arian parod yn ddiogel.
- glynu at y terfynau trafodion a osodir gan y Swyddog Adran 151.
- cysoni a chydbwyso bob mis.
- cynhyrchu arian parod a thalebau ar gais.

5.6.3 Ni chaniateir credydu derbyniadau heblaw ad-daliadau awdurdodedig, a gwaherddir sieciau personol neu fenthyciadau. Gall y Pennaeth Cyllid ofyn am ddychwelyd yr imprest a'r ddogfennaeth ategol ar unrhyw adeg.

6 Incwm

6.1 Casglu Incwm

6.1.1 Mae'r Swyddog Adran 151 yn gyfrifol am y trefniadau sy'n llywodraethu sut cesglir incwm, gan gynnwys cymeradwyo'r holl ffurflenni derbyn swyddogol, y llyfrau, a'r dogfennau cysylltiedig. Gellir dirprwyo cyfrifoldebau o ddydd i ddydd i swyddogion enwebedig, ond y Swyddog Adran 151 fydd â rheolaeth gyffredinol er hynny.

6.1.2 Pan fo'n rhaid cael cymeradwyaeth gan gorff allanol i awdurdodi incwm, ni ellir casglu unrhyw incwm o'r fath nes ceir cymeradwyaeth ysgrifenedig gan y corff perthnasol.

6.1.3 Rhaid i'r holl incwm fod:

- wedi'i ddiogelu'n briodol a'i fancio yn ei gyfanrwydd ar amserlen a gymeradwywyd gan y Swyddog Adran 151.
- wedi'i gasglu yn unol â rhenti, ffioedd a thaliadau cymeradwy neu ofynion statudol.
- wedi'i gefnogi gan dderbynebau awdurdodedig a chofnodion cywir o drosglwyddiadau rhwng gweithwyr.
- wedi'i wneud gan fancwyr neu asiantau enwebedig yr Awdurdod oni fydd wedi'i gymeradwyo fel arall gan Swyddog Adran 151.

6.1.4 Bydd y Prif Swyddog Tân yn ymgynghori â Swyddog Adran 151 cyn unrhyw benderfyniad i gyflwyno, adolygu, neu roi'r gorau i ddefnyddio graddfeydd ffioedd neu dariffau, boed hynny fel rhan o'r broses gyllideb flynyddol neu fel arall. Dylai'r Awdurdod gymeradwyo newidiadau polisi sylweddol, ac eithrio'r rhai sy'n deillio o statud.

6.1.5 Rhaid i bob gweithiwr sy'n talu arian i mewn i fanc gydymffurfio â'r gofyniad i roi manylion y taliad ar slip talu ac ar y bonyn neu ddyblyg ohono, gan gynnwys y canlynol ar gyfer pob siec:

(i) swm y siec; a

(ii) rhai cyfeirnodau (megis rhif derbynneb neu enw'r dyledwr) a fydd yn cysylltu'r sieciau â'r dyledion a ryddhawyd trwy daliad.

6.1.6 Dim ond pan ddônt o ffynhonnell gymeradwy y dylid derbyn sieciau trydydd parti, h.y. gwaith cyfleustodau a lle mae'n cael ei ddefnyddio i setlo dyled yr Awdurdod yn llawn neu'n rhannol. Ni ddylid eu newid am arian neu eu derbyn a rhoi newid ar unrhyw achlysur. Ni ddylid newid sieciau personol am arian neu fenthyg arian o incwm a gasglwyd.

6.1.7 Rhaid codi anfonebau ar gyfer incwm yn brydlon ac mewn fformat cymeradwy, a phan gânt eu canslo neu pan fo gostyngiad rhaid i hyn gael ei awdurdodi gan y Prif Swyddog Tân (neu'r swyddog dynodedig) mewn cytundeb â'r Swyddog Adran 151.

6.2 Dileadau.

6.2.1 Ni chaiff unrhyw ddyled sydd wedi'i sefydlu'n gywir ac sy'n ddyledus i'r Awdurdod ei rhyddhau heblaw am drwy gael taliad llawn, ac eithrio drwy benderfyniad gan yr Awdurdod neu yn ôl disgresiwn Swyddog Adran 151 am symiau hyd at £5,000, ar gyfer unrhyw un dyledwr o fewn un flwyddyn ariannol.

6.2.2 Gall y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (Cyllid ac Adnoddau) ddileu, heb derfyn, unrhyw symiau a ystyrir yn amhosibl i'w casglu yn rhinwedd unrhyw fath o ansolfedd, methdaliad, cwmnïau wedi'u diddymu, neu ddiddymu dyledwr, ddyled wedi'i gwahardd yn statudol neu absenoldeb rhwymedïau pellach megis yn dilyn gwrandawiad ymrwymo, dyledwr yn marw heb ystâd, neu pan na ellir olrhain y dyledwr.

6.2.3 Dylai'r Awdurdod gymeradwyo unrhyw ddyledion sydd ddim yn bodloni'r meini prawf uchod.

6.2.4 Ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol, bydd yn rhaid i'r Prif Swyddog Tân gyflwyno rhestrau o ddyledion i'r Swyddog Adran 151 er mwyn eu cynnwys yng Nghyfrifon Terfynol y flwyddyn.

6.2.5 Mae'r Swyddog Adran 151 yn gyfrifol am sicrhau bod darpariaeth ddigonol ar gyfer dyledion drwg yng nghyfrifon yr Awdurdod ar ddiwedd y flwyddyn.

7 Bancio

7.1 Trefniadau Bancio

7.1.1 Bydd yr Awdurdod yn cymeradwyo'r telerau sy'n rheoli'r gwasanaethau bancio, gan gynnwys Cyfleusterau gorddrafft, a gyflenwir. Mae'r holl drefniadau gyda bancwyr yr Awdurdod, neu gydag unrhyw fanc neu gymdeithas adeiladu arall, ar gyfer gweithredu cyfrifon banc yn enw'r Awdurdod i'w gwneud drwy'r Swyddog Adran 151, a all ragnodi rheolau ynghylch nifer, swm, a math y trafodion sydd i'w trosglwyddo trwy unrhyw gyfrif o'r fath.

7.1.2 Bydd yr holl gyfrifon banc yn cynnwys "North Wales Fire and Rescue Authority" yn y teitl.

7.1.3 Ni fydd unrhyw drefniant o unrhyw fath gydag unrhyw wasanaeth bancio yn cael ei wneud heb gymeradwyaeth y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (Cyllid ac Adnoddau).

7.1.4 Bydd pob taliad neu drosglwyddiad a wneir o unrhyw un o gyfrifon banc yr Awdurdod yn cael ei gymeradwyo gan swyddog priodol yn unol â'r Cynllun Dirprwyo Ariannol.

7.1.5 Bydd y Swyddog Adran 151 yn trefnu pa bynnag fesurau diogelu y mae'n eu hystyried yn angenrheidiol ac yn ymarferol i sicrhau bod arian parod a dderbynia'r Awdurdod yn cael ei fancio i gredyd yr Awdurdod a bod taliadau a dynnir ar gyfrifon banc yr Awdurdod yn cael eu gwarantu a'u cofnodi'n briodol. Ni ddylid bancio derbynebau sy'n perthyn i'r Awdurdod i gredyd cyfrif banc personol cyflogai neu asiant yr Awdurdod ar unrhyw achlysur.

7.1.6 Ystyrir bod cyfrifon banc yn cynnwys archebion talu, archebion sefydlog a debydau uniongyrchol.

7.1.7 Ni ddylid talu sieciau personol Aelodau neu weithwyr yr Awdurdod.

7.1.8 Bydd Swyddog Adran 151 yn sicrhau bod y llwyfannau bancio digidol y mae'r Awdurdod yn eu defnyddio yn cael eu hadolygu'n rheolaidd, gan gynnwys rheolaethau mynediad, llwybrau archwilio, a chydymffurfiaeth â Deddf Gwasanaethau a Marchnadoedd Ariannol 2023. Rhaid i unrhyw drefniadau bancio newydd gynnwys darpariaethau ar gyfer canfod twyll, monitro trafodion, a thrin data yn ddiogel.

8 Staffio

8.1 Sefydlu

8.1.1 Mae'r Prif Swyddog Tân yn gyfrifol am reolaeth gyffredinol ar y gweithwyr o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan yr Awdurdod.

8.1.2 Yr Awdurdod sydd yn penodi Prif Swyddogion.

8.1.3 Bydd y Prif Swyddog Tân yn gwneud trefniadau addas ar gyfer y rheolaethau allweddol canlynol:

- Sicrhau bod system gwerthuso swyddi cytunedig neu broffiliau cenedlaethol yn cael eu defnyddio'n briodol er mwyn sicrhau bod gradd a thâl pob swydd yn deg ac yn gyson.
- Gwerthuso niferoedd y gweithwyr y gellir eu hariannu o fewn darpariaeth gyllideb gymeradwy, gan amrywio'r ddarpariaeth yn ôl yr angen o fewn y cyfyngiad hwnnw er mwyn diwallu anghenion gweithredol newidiol.
- Gweithredu Cynllun Dirprwyo Gwasanaeth i sicrhau bod newidiadau i'r niferoedd staffio y cytunwyd arno, yr oriau a weithiwyd, neu'r swyddi cysylltiedig yn destun ystyriaeth a chymeradwyaeth briodol.
- Gweithredu gweithdrefnau penodi ar gyfer recriwtio a dewis gweithwyr.

8.2 Cyflogaeth Eilaidd

8.2.1 Bydd y Prif Swyddog Tân yn gwneud trefniadau ar gyfer cymeradwyo cyflogaeth allanol yn briodol i'r staff hynny sy'n gweithio eu prif swydd â Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru.

8.2.2 Mae'r Prif Swyddog Tân yn cadw'r hawl i dynnu'r caniatâd ar gyfer cyflogaeth allanol yn ôl a/neu amrywio'r amodau ynghlwm, a hynny ar unrhyw adeg.

8.3 Y Gyflogres

8.3.1 Mae'r Swyddog Adran 151 yn gyfrifol am dalu cyflogau ac enillion cysylltiedig yn gywir ac mewn ffordd reoledig. Rhaid gwneud pob taliad, gan gynnwys tâl i staff achlysurol, drwy'r system gyflogres er mwyn sicrhau triniaeth gywir o ran treth ac Yswiriant Gwladol.

8.3.2 Rhaid i reolwyr ddarparu gwybodaeth amserol a chywir am apwyntiadau, newidiadau, ac absenoldebau, ac ardystio taflenni amser a hawliadau yn unol â dyddiadau cau. Rhaid i bob taliad gydymffurfio â chontractau, polisïau'r Awdurdod a strwythurau cyflog cymeradwy.

8.3.3 Bydd yr holl daliadau i staff yn unol â'u contract cyflogaeth, â pholisïau'r Awdurdod, ac â'r sefydliadau, graddau, a chyfraddau cyflog awdurdodedig.

8.3.4 Bydd y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (Cyllid ac Adnoddau) yn gweithredu cytundebau cyflog cenedlaethol cyn gynted â phosibl ar ôl iddynt gael eu hysbysu gan y corff priodol. Bydd trefniadau ar gyfer ariannu dyfarniadau o'r fath yn cael eu pennu bob blwyddyn fel rhan o'r broses pennu'r gyllideb.

8.3.5 Bydd ymgysylltu â gweithwyr trwy asiantaethau cyflogaeth yn amodol ar gadarnhad bod statws treth yr ymgysylltiad wedi'i wirio gan ddefnyddio canllawiau CThEF i sicrhau bod treth ac Yswiriant Gwladol yn cael eu didynnu fel y bo'n briodol.

8.3.6 Bydd yr holl drefniadau oddi ar y gyflogres gydag asiantaethau cyflogaeth, unigolion, neu gwmnïau gwasanaeth personol yn destun gwiriadau diwydrwydd dyladwy CThEF. Pan gynigir contract oddi ar y gyflogres, dylid ceisio cymeradwyaeth y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (Cyllid ac Adnoddau).

8.3.7 Mae'r Swyddog Adran 151 yn sicrhau bod didyniadau statudol yn cael eu talu ar amser a nhw fydd yn cadw cofnodion cyflogres ar gyfer y cyfnodau cadw gofynnol (chwe blynedd ar gyfer treth/Yswiriant Gwladol; deng mlynedd ar gyfer data pensiwn).

8.4 Teithio a Chynhaliaeth

8.4.1 **Aelodau:** Bydd taliadau sy'n ddyledus i Aelodau'r Awdurdod yn cael eu gwneud yn unol â'r cyfraddau a osodir gan yr Awdurdod, ar ôl derbyn y ffurflen ragnodedig wedi'i chwblhau'n briodol gan yr Aelod dan sylw.

8.4.2 **Gweithwyr:** Rhaid i bob hawliad am deithio, cynhaliaeth, a chostau cysylltiedig fodloni'r canlynol:

- wedi'i gyflwyno ar y ffurflen gymeradwyo a'i ardystio gan y rheolwr llinell perthnasol.
- yn cadarnhau bod teithiau wedi'u hawdurdodi, bod y treuliau wedi'u hysgwyddo'n briodol, a bod y milltiroedd yn gywir.
- yn cael eu prosesu trwy gyflogres lle bynnag y bo modd i sicrhau triniaeth dreth ac Yswiriant Gwladol gywir.

8.4.3 Mae ardystiad yn golygu bod y Prif Swyddog Tân yn fodlon bod yr hawliad yn ddilys ac yn daladwy. Mae gofynion llawn, gan gynnwys ardrethi, dogfennaeth a therfynau amser, wedi'u nodi yn y Polisi a Gweithdrefn Teithio a Chynhaliaeth, ac mae'n rhaid eu dilyn ym mhob achos.

9 Adnoddau

9.1 Diogelwch

9.1.1 Mae'r Prif Swyddog Tân yn gyfrifol am gynnal diogelwch adeiladau, stoc, offer, arian parod ac eiddo arall, a rhaid iddo ymgynghori â Swyddog Adran 151 pan fo diffygion o ran diogelwch, pan fo angen mesurau arbennig, neu pan all newidiadau arfaethedig effeithio ar ddiogelwch.

9.1.2 Bydd yr uchafswm ar gyfer terfynau taliadau arian parod yn cael eu cytuno gyda Swyddog Adran 151 ac ni ddylid mynd drostynt heb ganiatâd penodol. Bydd unrhyw arian a gedwir yn cael ei ddiogelu'n briodol (fel arfer yn cael ei gadw mewn cynhwysydd diogel neu wedi'i gloi).

9.1.3 Rhaid cadw allweddi ar gyfer sêffs a storfeydd diogel yn ddiogel; rhaid dweud wrth y Prif Swyddog Tân a Swyddog Adran 151 am golledion ar unwaith.

9.1.4 Bydd y Prif Swyddog Tân yn gyfrifol am sicrhau bod gweithdrefnau digonol ar waith i sicrhau bod holl eiddo'r Awdurdod, gan gynnwys allweddi, tocynnau, fflotiau, cardiau adnabod ac ati, yn cael ei gadw gan yr Awdurdod neu ei ddychwelyd iddo pan fo gweithiwr yn gadael cyflogaeth yr Awdurdod.

9.1.5 Ar ôl gadael cyflogaeth yr Awdurdod, neu ar ôl rhoi'r gorau i fod yn ddeiliad allwedd neu bas awdurdodedig, bydd gweithiwr yn dychwelyd yr allweddi neu'r pasys dan sylw i'r Prif Swyddog Tân neu i'r rheolwyr dynodedig.

9.1.6 Bydd y Prif Swyddog Tân yn gyfrifol am ddiogelwch a chyfrinachedd yr holl wybodaeth ariannol neu wybodaeth gysylltiedig sydd dan ei reolaeth ac yn sicrhau cydymffurfiaeth â deddfwriaeth diogelu data.

9.2 Yswiriant

9.2.1 Bydd y Prif Swyddog Tân, gyda'r Swyddog Adran 151 a'r PSTC (Cyllid ac Adnoddau), yn adolygu asedau a risgiau i benderfynu ar yr anghenion yswiriant. Rhaid cytuno ar indemniadau sy'n ofynnol gan yr Awdurdod gyda Swyddog Adran 151 a Chlerc yr Awdurdod Tân. Rhaid dweud yn brydlon pan fydd newidiadau yn y defnydd o asedau neu wasanaethau sy'n effeithio ar yswiriant.

9.2.2 Mae'r PSTC (Cyllid ac Adnoddau) yn trefnu yswiriant (ac eithrio yswiriant a ddelir gan gontractwyr), yn cytuno ar ormodedd y polisi, ac yn sicrhau gweithdrefnau ar gyfer awdurdodi setlo/gwrthod hawliadau; mae'r Swyddog Adran 151 yn cynnal y gofrestr polisi ac yn sicrhau bod premiymau yn cael eu talu a hawliadau/colledion yn cael eu rheoli. Gwneir darpariaethau rhesymol ar gyfer risgiau anhysbys neu rwymedigaethau hysbys. Rhaid i'r PSTC (Cyllid ac Adnoddau) gael gwybod am hawliadau, hawliadau posibl, a risgiau newydd/sy'n dod i'r amlwg, a rhaid i swyddogion ddarparu dogfennau ar gais o fewn amserlenni penodedig.

9.3 Cyfrifiadura a Thechnoleg Gwybodaeth

9.3.1 Bydd y Swyddog Adran 151 yn gyfrifol am gynghori ar y trefniadau ar gyfer prosesu data ariannol Rhaid i unrhyw gynigion i ddatblygu neu addasu systemau ariannol neu i ddefnyddio gwybodaeth ariannol ar systemau lleol gydymffurfio â'r gofyniad priodol ar gyfer Gwasanaethau Ariannol.

9.3.2 Rhaid i'r Prif Swyddog Tân a'r rheolwyr sicrhau diogelwch TG a rheolaethau preifatrwydd priodol; dim ond i weithwyr awdurdodedig a'r rhai a gymeradwywyd yn benodol gan y Swyddog Adran 151 y dylid rhyddhau data ariannol.

9.4 Stociau, Storfeydd, a Rhestrau Stoc

9.4.1 Mae'r Prif Swyddog Tân yn gyfrifol am gadw a gofalu am stoc, offer, ac asedau symudol eraill ac am gynnal lefelau priodol ohonynt.

9.4.2 Rhaid cadw cofnodion cywir mewn fformat a gymeradwywyd gan Swyddog Adran 151, gan ddangos derbynebau, cyhoeddiadau, a balansau. Rhaid gwirio pob eitem stoc a stocrestr o leiaf bob blwyddyn, a rhaid darparu prisiad ardystiedig i'r Pennaeth Cyllid.

9.4.3 Rhaid i addasiadau ar gyfer gwarged, diffygion, neu warediadau (gan gynnwys eitemau darfodedig neu wedi'u difrodi) ddilyn y Cynllun Dirprwyo Ariannol, gan ddefnyddio dulliau gwaredu y mae'r Swyddog Adran 151 wedi cytuno arnynt. Rhaid rhoi adroddiad am unrhyw ddileadau i'r Pennaeth Cyllid a diweddaru cofnodion cysylltiedig.

9.4.4 Rhaid i eitemau deniadol neu gludadwy (e.e. offer TG) gael eu marcio'n amlwg i ddangos mai eiddo'r Awdurdod ydynt, a rhaid eu cofnodi gan gynnwys manylion allweddol fel dyddiad prynu, cost, lleoliad a disgrifiad.

9.4.5 Gall Swyddog Adran 151 (neu ddirprwy) archwilio unrhyw gofnodion safle, stoc, neu restr stoc ar unrhyw adeg.

9.4.6 Rhaid i'r Swyddog Adran 151 gytuno ar ddull gwaredu.

9.4.7 Os yw gwerth stoc yn ystod y flwyddyn ariannol yn uwch na £1,000, mae angen cymeradwyaeth gan Brif Swyddog ar gyfer ei waredu neu ei ddileu.

9.5 Defnydd Preifat o Gyfleusterau

9.5.1 Ni ddylid defnyddio asedau'r Awdurdod, heb awdurdodiad penodol gan y Prif Swyddog Tân, at unrhyw ddiben heblaw am gyflawni swyddogaethau'r Awdurdod, gan gynnwys buddion cymunedol ehangach. Pan fo unrhyw ddefnydd arall o'r fath yn arwain at yr Awdurdod yn ysgwyddo cost ychwanegol neu'n colli incwm, dylid ymgynghori â'r Swyddog Adran 151 a bydd yn rhaid i'r defnyddiwr dalu swm llawn y costau ychwanegol neu'r incwm a gollwyd i'r Awdurdod, oni phenderfyna'r Awdurdod fel arall ar ôl ystyried adroddiad gan y Prif Swyddog Tân.

9.5.2 Ac eithrio wrth gyflawni ei ddyletswyddau swyddogol neu yn unol â'r Amodau Gwasanaeth lleol, ni chaiff unrhyw gyflogai ddefnyddio gwasanaethau neu gyfleusterau'r Awdurdod ac eithrio ar yr un telerau ag aelod o'r cyhoedd.

9.6 Caffael a Gwaredu Asedau

9.6.1 Bydd y Prif Swyddog Tân yn hysbysu'r Clerc i'r Awdurdod yn brydlon pan fo tir, neu fuddiant mewn tir, yn cael ei gaffael neu ei waredu. Bydd trafodaethau ar ran yr Awdurdod yn un o gyfrifoldebau Clerc yr Awdurdod, a bydd y Clerc yn gyfrifol am wneud trefniadau ar gyfer cofrestru tir neu eiddo'r Awdurdod yn ddiogel.

9.6.2 Dylai'r Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (Cyllid ac Adnoddau) gael ei hysbysu am unrhyw gaffaeliadau, er mwyn sicrhau bod yr eitemau hyn yn cael eu cyfrif yn briodol.

9.6.3 Bydd y Swyddog Adran 151 a'r Prif Swyddog Tân yn cymeradwyo trefniadau ar gyfer gwaredu eiddo (ac eithrio tir), cerbydau darfodedig, peiriannau ac offer, storfeydd, hen ddeunyddiau a sgrap.

9.6.4 Bydd angen cymeradwyaeth gan yr Awdurdod i werthu tir a/neu adeiladau ac i ildio prydles sydd â thymor o bum mlynedd neu fwy.

9.6.5 Dylid hysbysu'r Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (Cyllid ac Adnoddau) am bob gwarediad, a hynny er mwyn sicrhau bod yr asedau yn cael eu tynnu o'r Gofrestr Asedau a'u cyfrif yn gywir yn y Datganiad o Gyfrifon.

9.6.6 Lle bo hynny'n berthnasol, dylid darparu manylion yr enillion a geir o'r gwarediad a'r gwaith papur cysylltiedig i'r Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (Cyllid ac Adnoddau), er mwyn sicrhau bod yr incwm a dderbynnir o waredu'r ased yn cael ei gyfrif yn briodol.

9.7 Prydlesu Asedau a Chydymffurfiaeth ag IFRS 16

9.7.1 Mae prydlesu yn ddull o gael y defnydd o ased heb drosglwyddo perchnogaeth gyfreithiol ffurfiol i'r Awdurdod. Mae prydlesi yn rhwymedigaethau cyfreithiol hirdymor a rhaid eu trin gyda chraffu ariannol a llywodraethiant priodol.

9.7.2 Mae'r Swyddog Adran 151 yn gyfrifol am sicrhau bod asesiad ariannol o fforddiadwyedd yn cael ei gwblhau a bod y gwariant dros oes y brydles o fewn y gyllideb gymeradwy ac yn unol â'r terfynau benthyca darbodus a bennir gan yr Awdurdod.

9.7.3 Bydd ar gynigion i ymrwymo neu ildio prydles gyda thymor o 5 mlynedd neu fwy angen am gymeradwyaeth yr Awdurdod. Dylai pob prydles fod yn ddarostyngedig i gymeradwyaeth briodol yn unol â'r Cynllun Dirprwyo Ariannol.

9.7.4 Mae'r Pennaeth Cyllid yn cynnal cofrestr o'r holl drefniadau prydles, gan gynnwys tymor y brydles, amserlenni talu, a gwerthuso asedau hawl-i-ddefnyddio.

9.7.5 Yn unol ag IFRS 16, rhaid cydnabod pob prydles (ac eithrio prydlesi gwerth isel a rhai tymor byr) ar y fantolen fel ased hawl defnyddio a rhwymedigaeth les gyfatebol. Mae Swyddog Adran 151 yn gyfrifol am sicrhau bod trefniadau prydles yn cael eu hasesu ar gyfer cymhwysedd IFRS 16 a bod triniaeth gyfrifyddu briodol yn cael ei gymhwyso.

9.7.6 Rhaid cyfrif am brydlesi'n briodol yn y Datganiad o Gyfrifon ac yn unol â'r canllawiau perthnasol, gan gynnwys Strategaeth Gyfalaf a Dangosyddion Darbodus yr Awdurdod.

9.7.7 Rhaid i ddeiliaid cyllideb hysbysu'r Adran Gyllid am unrhyw drefniadau prydles arfaethedig i sicrhau cydymffurfiaeth â'r gofynion hyn.

10 Rheoli Trysorlys

10.1 Strategaeth Gyfalaf

10.1.1 Mae'r Awdurdod yn mabwysiadu Cod Ymarfer CIPFA ar gyfer Rheoli'r Trysorlys yn y Gwasanaethau Cyhoeddus a'r Cod Darbodus ar gyfer Cyllid Cyfalaf mewn Awdurdodau Lleol. Mae'r Swyddog Adran 151, mewn ymgynghoriad â'r Prif Swyddog Tân, yn paratoi Strategaeth Gyfalaf flynyddol ar gyfer cymeradwyaeth yr Awdurdod.

10.1.2 Mae'r Strategaeth yn rhoi trosolwg lefel uchel o sut mae gwariant cyfalaf, cyllid a gweithgarwch trysorlys yn cefnogi cyflwyno'r gwasanaethau, a sut mae risg a chynaliadwyedd yn cael eu rheoli o fewn fframwaith llywodraethu'r Awdurdod.

10.2 Strategaeth a Chynllun Rheoli'r Trysorlys

10.2.1 Mae'r Swyddog Adran 151 yn gyfrifol am Strategaeth a Chynllun Rheoli'r Trysorlys, sy'n nodi dull gweithredu'r Awdurdod o fenthyca, buddsoddi cronfeydd dros ben a rheoli risg cysylltiedig.

10.2.2 Rhaid i'r Awdurdod gymeradwyo'r Strategaeth yn flynyddol cyn dechrau'r flwyddyn ariannol. Mae'r Swyddog Adran 151 yn monitro cydymffurfiaeth drwy gydol y flwyddyn ac yn rhoi adroddiad ar y canlyniadau i'r Awdurdod ar ddiwedd y flwyddyn.

10.3 Benthyciadau a buddsoddiadau

10.3.1 Trwy gymeradwyo'r Rhaglen Gyfalaf a Strategaeth y Trysorlys mae'r Awdurdod yn rhoi awdurdod i fenthyca ar gyfer prosiectau cymeradwy. Mae'r Swyddog Adran 151 yn gyfrifol am:

- trefnu benthyca a buddsoddi cronfeydd dros ben yn unol â'r Strategaeth Rheoli Trysorlys.
- monitro fforddiadwyedd a chynaliadwyedd yn erbyn dangosyddion darbodus ac adrodd am unrhyw dramgwyddau posibl.
- cadw cofnodion llawn a chywir o'r holl fenthyciadau a buddsoddiadau a sicrhau bod gwarantau a dogfennau cysylltiedig yn cael eu cadw'n ddiogel.

11 Treth ar Werth (TAW)

11.1 Cofnodion

11.1.1 Mae'r Swyddog Adran 151 yn gyfrifol am gadw cofnodion TAW priodol ac am sicrhau bod trefniadau ar waith ar gyfer ar gyfer ffurflenni Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi (CThEF) yn unol â rheoliadau rhagnodedig.

11.1.2 Cyfrifoldeb ar Swyddog Adran 151 yw sicrhau bod trefniadau ar waith i gyfrifo TAW yn gywir.

11.2 Treth Mewnbwn

11.2.1 Pan fo anfonebau credydwyr yn cynnwys TAW, yn unol â CThEF, bydd yr amodau canlynol wedi'u bodloni:

(a) mae'r anfoneb yn anfoneb dreth.

(b) ar gyfer taliadau i'r diwydiant adeiladu, bod derbynneb wedi'i dilysu i'w chael.

(c) ar gyfer taliadau a wneir cyn i'r gwasanaethau/nwyddau gael eu derbyn, bod derbynneb treth i'w chael er mwyn galluogi'r addasiadau angenrheidiol.

(d) mae'r TAW sydd wedi'i gynnwys ar anfoneb credydwr wedi'i nodi a'i godio'n gywir; a

(e) bod anfonebau TAW yn cael eu prosesu'n gyflym ac nad ydynt yn cael eu gohirio'n ormodol.

11.3 Treth Allbwn

11.3.1 Pan fo'r gwasanaethau a gyflwynir yn ddarostyngedig i TAW, yn unol â rheoliadau CThEF, yna codir anfonebau TAW priodol gan roi sylw dyledus i'r pwyntiau treth perthnasol.

11.3.2 Bydd yr holl anfonebau treth a godir yn cael eu prosesu'n gyflym.

11.3.3 Bod yr incwm arian parod a geir, pan fo incwm o'r fath yn cynnwys TAW, yn cael ei ddadansoddi'n gywir a'i brosesu yn y ffordd arferol.

11.4 Cadw Dogfennau

11.4.1 Rhaid cadw'r holl ddogfennau sy'n nodi trafodion TAW am chwe mlynedd, gan gynnwys prawf o daliad a chofnodion bancio, er mwyn bodloni gofynion CThEF.

12 Atal Afreoleidd-dra Ariannol

12.1 Atal Twyll, Atal Gwyngalchu Arian, a Thryloywder Corfforaethol

12.1.1 Mae'r Awdurdod yn disgwyl y safonau ymddygiad uchaf. Mae ei ddull wedi'i nodi yn y Strategaeth Atal Dwyll a Llygredd a'r Polisi Chwythu'r Chwiban, sy'n darparu llwybrau cyfrinachol i roi adroddiad pan amheuir camwedd.

12.1.2 O ran priodoldeb ac atebolrwydd, disgwyliad yr Awdurdod yw y bydd Aelodau a Swyddogion, ar bob lefel, yn arwain trwy esiampl wrth sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion cyfreithiol, rheolau, gweithdrefnau ac arferion cyfreithiol.

12.1.3 Mae'r Swyddog Adran 151 yn gyfrifol am weithredu'r Strategaeth, gan sicrhau rheolaethau cymesur, ymwybyddiaeth staff, a hyfforddiant staff. Pan amheuir unrhyw dwyll, llwgrwobrwyo neu afreoleidd-dra, rhaid dweud wrth y rheolwr llinell ar unwaith; pan fo'r rheolwr llinell o dan y Pennaeth Adran, dylid dweud wrth y Pennaeth Adran, y Prif Swyddog Tân, a'r Swyddog Adran 151 heb oedi.

12.1.4 Yn unol â Deddf Troseddau Economaidd a Thryloywder Corfforaethol 2023, mae'r Awdurdod wedi ymrwymo i gryfhau ei reolaethau yn erbyn twyll, gwyngalchu arian, a chamddefnyddio strwythurau corfforaethol. Bydd y Swyddog Adran 151 yn sicrhau:

- Bod pob trafodiad ariannol yn destun diwydrwydd dyladwy uwch lle bo angen.
- Bod cofnodion cyflenwyr a chontractwyr yn cael eu gwirio yn erbyn Tŷ'r Cwmnïau a chofrestri perthnasol eraill.
- Bod unrhyw weithgarwch amheus yn cael ei adrodd yn unol â Strategaeth Atal Twyll a Llygredd yr Awdurdod a chyfundrefn SAR yr Asiantaeth Troseddu Genedlaethol.
- Bod pob swyddog sy'n ymwneud â chaffael, cyllid, neu reoli contractau yn cael hyfforddiant ar adnabod y rhybuddion sy'n gysylltiedig â throseddau economaidd.
- Bod yr Awdurdod yn cynnal cofrestr o ddatgeliadau perchnogaeth fuddiol lle bo hynny'n berthnasol, a'u bod yn sicrhau cydymffurfiaeth â rhwymedigaethau adrodd newydd o dan y Ddeddf.

12.2 Rhoddion, Grantiau i Gyrff Eraill, a Chyfraniadau

12.2.1 Rhaid i roddion, grantiau, a chyfraniadau gael eu cymeradwyo gan y Prif Swyddog Tân mewn ymgynghoriad â'r Swyddog Monitro neu'r Swyddog Adran 151. Mae angen cymeradwyaeth gan yr Awdurdod ar unrhyw swm dros £20,000.

12.3 Cofrestr Buddiannau'r Aelodau

12.3.1 Mae'r Swyddog Monitro yn sicrhau bod gweithdrefnau ar gyfer cofrestru buddiannau Aelodau yn cydymffurfio â'r statud. Cyhoeddir datganiadau ar wefan yr Awdurdod.

12.4 Datganiadau o Fuddiant

12.4.1 Mae'r Swyddog Adran 151 yn sicrhau bod trefniadau priodol ar waith ar gyfer datganiadau o fuddiant gan uwch swyddogion ac unrhyw weithiwr sydd â buddiant ymddiriedolwr mewn contract Awdurdod. Ni ddylai gweithwyr weithredu mewn ffordd swyddogol pan fo ganddynt nhw, neu berthynas agos iddynt, fuddiant personol. Y Pennaeth Cyllid sy'n cadw'r ffurflenni.

12.5 Rhoddion a Lletygarwch

12.5.1 Gellir ystyried bod rhoi anrhegion, gwobrau, neu letygarwch mewn cysylltiad â dyletswyddau swyddogol yn ffordd o gymell. Rhaid i aelodau a swyddogion fod yn ofalus a dilyn y canllawiau yn Rhan 5 o'r Cyfansoddiad.

12.5.2 Nid oes angen datgan rhoddion dibwys a gynigir ac a dderbynnir, hyd at uchafswm o £25.00, er efallai y bydd Aelodau a staff yn dymuno gwneud hynny; eu penderfyniad nhw yw hynny. Rhaid cofnodi pob cynnig arall, gan gynnwys y rhai a wrthodir, yn y gofrestr.

12.5.3 Mae cofrestr o Anrhegion a Lletygarwch yn cael ei chynnal gan yr Adran Gyllid. Rhaid cyflwyno pob datganiad o fewn 28 diwrnod; gellir ceisio cyngor pellach gan y tîm cyllid.

12.5.4 Dylai pob aelod o staff ymddwyn ag uniondeb, didueddrwydd a gonestrwydd bob amser, a dylid cynnal safonau uchel o briodoldeb a phroffesiynoldeb.

12.6 Cynigion Hyrwyddo

12.6.1 Mae'r cynigion hyrwyddo a geir gan gyflenwyr (e.e. anrhegion, talebau, lletygarwch) yn eiddo i'r Awdurdod. Fel rheol gyffredinol, ni ddylid eu derbyn oni fydd yn amlwg eu bod yn ddibwys. Gofynnwch am arweiniad gan y Pennaeth Cyllid a chofnodwch yr holl gynigion, gan gynnwys y rhai a wrthodwyd, yn y gofrestr Anrhegion a Lletygarwch.

12.7 Cronfeydd Answyddogol

12.7.1 Mae'r Prif Swyddog Tân yn gyfrifol am sicrhau bod yr holl gronfeydd gwirfoddol ac answyddogol a ddelir, lle mae arian a/neu asedau'n cael eu trin gan weithiwr yn ystod eu cyflogaeth neu swydd, nad ydynt wedi'u cyhoeddi gan yr Awdurdod, yn cael eu gweinyddu a'u harchwilio'n briodol yn flynyddol.

12.7.2 Ni fydd yr Awdurdod yn goruchwylio gweinyddiaeth ariannol nac yn archwilio unrhyw gronfeydd answyddogol ac nid yw'n derbyn unrhyw atebolrwydd am unrhyw golled. Mae gan y rhai sy'n gweithredu'r cronfeydd gyfrifoldeb ariannol cyffredinol i sicrhau y cedwir at stiwardiaeth ariannol briodol. Mae hyn yn cynnwys:

- penodi Swyddog Adran 151 ac archwiliwr annibynnol yn ffurfiol
- bod rheolau priodol yn cael eu gweithredu i gynnal safonau digonol;
- bod cofnodion a gweithdrefnau digonol yn cael eu cadw;
- bod adroddiadau rheolaidd ar drafodion a balansau'r gronfa yn cael eu derbyn a'u gwirio yn erbyn cyfriflenni banc;
- bod datganiadau blynyddol o incwm a gwariant a balansau'r gronfa yn cael eu paratoi ac yn destun archwiliad annibynnol;

12.7.3 Cyfrifoldeb y rhai sy'n gweithredu neu'n bwriadu gweithredu'r Gronfa yw:

- hysbysu'r Pennaeth Cyllid o fanylion y gronfa cyn gynted ag y bydd hyn wedi'i sefydlu;
- darparu tystysgrif archwiliad blynyddol annibynnol ar gyfer y gronfa i'r Pennaeth Cyllid o fewn tri mis i ddiwedd y flwyddyn ariannol, gan ddangos o leiaf y balans agoriadol a'r balans cau a chyfanswm yr incwm a'r gwariant;
- mae'r Swyddog Adran 151 yn cadw'r hawl i archwilio cyfrifon a chofnodion cronfeydd o'r fath yn ôl yr angen.

Atodiad 1

Matrics Cyfrifoldeb

Gweithgaredd	Yr Awdurdod Tân	Prif Swyddog Tân	Swyddog Adran 151	Swyddog Monitro	Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (Cyllid ac Adnoddau)	Pennaeth Adran
Gweithgaredd Strategol						
Cymeradwyo'r Rheoliadau Ariannol	X					
Gwneud penderfyniadau strategol sy'n effeithio ar berfformiad ariannol a sefyllfa Cynllun Ariannol Tymor Canolig (MTFS) yr Awdurdod	X					
Paratoi'r MTFPS		X	X		X	
Cymeradwyo'r MTFS, y gyllideb flynyddol, a'r ardoll	X					
Cymeradwyo'r telerau ar gyfer y ddarpariaeth o wasanaethau bancio	X					
Cymeradwyo'r Strategaeth ar gyfer Cronfeydd wrth Gefn	X					
Cymeradwyo'r Strategaeth Rheoli Trysorlys a'r Cynllun Cyfalaf	X					
Cyllidebu Refeniw a Chyfalaf						
Sicrhau bod unrhyw gynigion cyllideb Refeniw neu Gyfalaf y mae'r Swyddog Adran 151 yn eu hystyried yn arwyddocaol yn cael eu costio'n llawn a'u cwblhau gan ddefnyddio'r templedi gofynnol.						X
Paratoi fersiynau drafft o'r Gyllideb Refeniw a'r Rhaglen Gyfalaf (Cyllideb) a chyfrifo'r ardoll ddrafft.			X			
Rhoi adroddiad ar ba mor gadarn yw'r amcangyfrifon a ddefnyddir yn y gyllideb, a pha mor ddigonol yw cronfeydd wrth gefn yr Awdurdod y mae'r gyllideb yn darparu ar eu cyfer fel rhan o'r broses gymeradwyo'r gyllideb			X			
Monitro ac adolygu'r Strategaeth Cronfeydd wrth Gefn			X			
Cymeradwyo'r Gyllideb Refeniw, y Rhaglen Gyfalaf a'r ardoll.	X					
Ystyried unrhyw eitemau gwariant ychwanegol a fyddai'n arwain at amrywiad newydd neu sylweddol o fewn polisi.	X					

Dirprwyo a Rheoli Cyllidebau Refeniw a Chyfalaf						
Cynnal cynllun o Ddirprwyaethau Ariannol sy'n cynnwys cyfyngiadau ar allu swyddogion unigol i gymeradwyo a sicrhau bod yr holl gyllidebau refeniw a chyfalaf yn cael eu dyrannu i Bennaeth Adran. Bydd dirprwyaethau cyllideb o dan y Penaethiaid Adran yn digwydd yn ôl disgresiwn y Pennaeth Adran dan sylw, er y byddant yn parhau i fod yn gyfrifoldeb am y gyllideb.		X	X		X	
Sicrhau bod gwaith rheoli'r gyllideb yn cael ei ddirprwyo yn briodol a bod rheolwyr cyllidebau yn cael adroddiadau rheolaidd i hwyluso'r gwaith o reoli cyllidebau.					X	
Cynllunio i wario cyllidebau yn unol ag amcanion yr Awdurdod ac i reoli'r gwariant o fewn y gyllideb yn effeithiol						X
Darparu gwybodaeth monitro ariannol amserol a chywir			X			
Monitro cyllidebau yn rheolaidd ac ystyried sut i drin unrhyw amrywiadau					X	X
Rhoi adroddiadau ar berfformiad ariannol i'r Aelodau bob chwarter o leiaf			X			
Ystyried y perfformiad yn erbyn y gyllideb a'r rhaglen gyfalaf yn rheolaidd	X					
Cyfrifon Statudol						
Paratoi cyfrifon statudol yr Awdurdod (gan gynnwys ardystio'r cyfrifon drafft erbyn diwedd mis Mai ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol)			X		X	
Cymeradwyo'r cyfrifon statudol erbyn diwedd mis Medi ar ôl diwedd y flwyddyn	X					
Rheoli Trysorlys						
Penodi bancwyr yr Awdurdod	X					
Sicrhau bod yr arferion Rheoli Trysorlys sydd ar waith yn ddigonol, gan gynnwys trefnu unrhyw fenthyciadau neu fuddsoddiadau angenrheidiol yn unol â'r rhagolygon am Lif Arian			X			
Paratoi a rheoli'r Strategaeth Rheoli Trysorlys blynyddol a'r Cynllun Cyfalaf, gan gynnwys cymeradwyo a monitro Dangosyddion Darbodus			X			
Cymeradwyo'r Strategaeth Rheoli'r Trysorlys Blynyddol	X					

Rheoli a Rheolaeth Ariannol						
Cynnull a chadeirio'r Uwch Dîm Arweinyddol, sy'n cynnwys Uwch Swyddogion, ac ystyried materion ariannol gan gynnwys monitro'r gyllideb		X				
Cynnig cyngor ar bob mater ariannol			X		X	
Sicrhau bod gwasanaethau ariannol yn cael eu darparu, gan gynnwys talu anfonebau, gwybodaeth ariannol, cyfrifon imprest, a chasglu incwm			X			
Sicrhau bod gwasanaeth cyflogres a phensiynau yn cael ei ddarparu					X	
Sicrhau bod systemau ariannol a rheoli addas ar waith, gan gynnwys gweithdrefnau ariannol			X			
Sicrhau bod asedau'n cael eu rheoli'n effeithiol			X			X
Sicrhau bod gweithdrefnau tendro yn eu lle a'u bod yn cael eu dilyn			X			X
Sicrhau bod pob trafodiad ariannol yn pasio trwy system ariannol yr Awdurdod.						X
Caniatáu i'r Prif Swyddog Tân, Swyddog Adran 151, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (Cyllid ac Adnoddau), ac Archwilydd Allanol neu Fewnol i gael mynediad ar gais at unrhyw ddogfen neu gofnod sydd o dan eu rheolaeth.						X
Sicrhau bod yr holl swyddogion sy'n gyfrifol am unrhyw weithgaredd ariannol yn cael sesiynau cynefino a hyfforddiant priodol					X	X
Sicrhau bod agweddau ariannol ar drefniadau a phartneriaethau ar y cyd yn cael eu rheoli'n effeithiol.		X	X	X		X
Sicrhau bod proses Rheoli Risg addas ar waith ar gyfer risgiau ariannol		X				
Sicrhau bod gan yr Awdurdod drefniadau Yswiriant priodol ar waith.					X	

Swyddogaethau statudol						
Sicrhau bod yr Awdurdod yn bodloni ei ofynion statudol a'i ofynion rheoleiddiol (sy'n cynnwys: rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio; Cod Ymarfer Cyfrifyddu Awdurdodau Lleol; y Cod Ymarfer ar gyfer Rheoli'r Trysorlys; a'r Cod Ymarfer Archwilio Mewnol)	x	x ymgyn ghorol	x			
Cyflawni cyfrifoldebau Prif Swyddog Cyllid o dan Adran 151 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, a gweithredu fel Swyddog Adran 151 i'r Awdurdod			x			
Cyflawni dyletswyddau Prif Swyddog Cyllid o dan Adran 114 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1988			x			
Penodi dirprwy Swyddog Adran 151		x				
Cynnal swyddogaeth archwilio mewnol effeithiol	x		x			

Gwybodaeth Rheoli Dogfennau:

Teitl y polisi:	Rheoliadau Ariannol
Perchennog y polisi: (swydd)	Y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (Cyllid ac Adnoddau)
Awdur (Enw)	Pennaeth Cyllid
Awdurdodwr: (swydd)	Awdurdod Tân ac Achub
Statws y cyhoeddiad:	Wedi'i ddiweddaru – i'w gymeradwyo
Marc amddiffynnol:	–
Dyddiad cyhoeddi:	I'W GADARNHAU
I'w adolygu ar:	I'W GADARNHAU
Cynulleidfa:	Ar gyfer y Pwyllgor Archwilio a'r Awdurdod Tân ac Achub
Rhif y Fersiwn:	3.0

Hanes Dosbarthu:

Dyddiad	Rhif Fersiwn	Wedi'i ddosbarthu i: (swyddi neu grwpiau)
Medi 2014	1	Cyhoeddus
Mawrth 2022	2	Cyhoeddus
Gorffennaf 2025	3.0	Newidiadau yn sgil adolygiad o'r drafft gan y Pennaeth Cyllid, wedi'i gyflwyno i A/C i'w gymeradwyo
XXX	3.1	I'w gymeradwyo gan yr Awdurdod Tân ac Achub
XXX	3.2	Dogfen gyhoeddus

This document is available in English

Eitem Agenda 11

Adroddiad i	**Y Pwyllgor Archwilio**
Dyddiad	**15 Medi 2025**
Swyddog Arweiniol	**Justin Evans, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol**
Swyddog Cyswllt	**Justin Evans, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol**
Pwnc	**Adroddiad Archwilio Cymru: Diffodd Tanau'r Dyfodol**

PWRPAS YR ADRODDIAD

1 Cyflwyno canfyddiadau ac argymhellion adroddiad Archwilio Cymru o fis Gorffennaf 2025, 'Diffodd Tanau'r Dyfodol', ar ddull Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) o dargedu gwaith atal tân.

CRYNODEB GWEITHREDOL

2 Mae Archwilio Cymru wedi cwblhau archwiliad perfformiad o strategaeth atal tân yr Awdurdod, gan ganolbwyntio ar ba mor effeithiol y mae'n targedu ei adnoddau tuag at yr aelwydydd mwyaf agored i niwed. Mae'r adroddiad yn cydnabod meysydd lle ceir ymarfer addawol, gan gynnwys defnyddio data'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG) ac ailymweld ag aelwydydd risg uchel. Fodd bynnag, mae'n nodi bylchau mewn targedu systematig, asesu gwerth am arian, ac ymgysylltu cynhwysol. Mae dau argymhelliad ffurfiol wedi'u gwneud i gryfhau dull gweithredu'r Awdurdod.

ARGYMHELLIAD

3 Argymhellir bod yr Aelodau'n:

i) Nodi canfyddiadau ac argymhellion adroddiad Archwilio Cymru;

ii) Cymeradwyo datblygu cynllun gwella wedi'i dargedu sy'n mynd i'r afael â'r ddau argymhelliad; a

iii) Gofyn am ddiweddariad cynnydd yn Ch1 2026-27 ar gamau i roi'r argymhellion ar waith.

CEFNDIR

4 Cynhaliwyd yr archwiliad o dan Adran 17(2)(d) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 ac fe'i llywiwyd gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Roedd yn canolbwyntio ar waith atal tân ar lefel aelwydydd, ac eithrio addysg ieuenctid, lleihau tanau gwyllt, a diogelwch ar y ffyrdd.

GWYBODAETH

5 Mae adroddiad Archwilio Cymru yn rhoi golwg gytbwys ar waith atal yr Awdurdod, gan gydnabod sawl maes lle ceir cryfder a thynnu sylw at gyfleoedd i ddatblygu.

6 Mae'r gweithgareddau cadarnhaol y tynnwyd sylw atynt yn cynnwys:

- Gostyngiad o 33% mewn tanau mewn anheddau a gostyngiad o 43% mewn anafiadau yn sgil tanau ers 2009-10;
- Defnyddio offer mapio a data'r GIG i nodi ac olrhain aelwydydd risg uchel;
- Ailymweld â chartrefi risg uwch, gan gydnabod bod ffactorau risg yn aml yn cynyddu dros amser;
- Gwiriadau sicrhau ansawdd ar gyfer swyddogion arbenigol a chriwiau tân;
- Hyfforddiant partneriaid i wella cywirdeb a chysondeb atgyfeirio; a
- Dangosfwrdd perfformiad ac adrodd rheolaidd i uwch arweinwyr.

7 Mae'r canfyddiadau allweddol yn cynnwys:

- Mae gan yr Awdurdod ddull targedu sylfaenol da ond gallai fod yn fwy cyson. Dim ond 29.4% o wiriadau diogelwch yn y cartref oedd mewn cartrefi risg uwch, sy'n awgrymu bod lle i fireinio ein pwyslais.
- Erys bylchau yn y data – yn enwedig o ran unigolion ynysig a risgiau sy'n dod i'r amlwg.
- Gallai achosion atgyfeirio ac achosion sy'n seiliedig ar ddata gael eu trin yn wahanol, a allai arwain at ganlyniadau anghyfartal.
- Mae data cydraddoldeb yn gyfyngedig, gan ei gwneud hi'n anoddach dangos cydymffurfiaeth â dyletswyddau cyfreithiol.
- Mae'r craffu gan yr Aelodau wedi bod yn gyfyngedig, a gallai'r gwaith dysgu gwersi yn sgil digwyddiadau fod yn fwy systematig.

8 Mae'r adroddiad yn gwneud dau argymhelliad: un ar wella sut i nodi a chyrraedd unigolion risg uwch, ac un ar gryfhau dealltwriaeth yr Awdurdod o'r gwerth y mae ei weithgareddau atal yn ei ychwanegu.

GOBLYGIADAU

Amcanion Llesiant	Mae'r adroddiad yn cefnogi ymrwymiad Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (y Gwasanaeth) i waith atal a datblygu cynaliadwy, ond mae'n tynnu sylw at yr angen am fwy o ymgysylltu cynhwysol a gwerthuso systematig.
Cyllideb	Cafodd yr Awdurdod £240,000 yn 2023-24 ar gyfer offer diogelwch yn y cartref. Mae pwysau ariannu, gan gynnwys colli grantiau lleihau tanau bwriadol a chostau offer cynyddol, yn golygu bod angen blaenoriaethu gweithgareddau atal craidd.
Cyfreithiol	Mae'r canfyddiadau'n ymwneud â chydymffurfio â Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus a'r Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol. Mae angen gwelliannau yn y defnydd o ddata ac ymgysylltu â'r gymuned i ddangos ein bod yn cyd-fynd â'r gyfraith.
Staffio	Nid oes unrhyw oblygiadau staffio uniongyrchol, ond mae angen o bosibl am well hyfforddiant a sicrhau ansawdd i swyddogion a phartneriaid sy'n ymwneud ag atgyfeiriadau a gwiriadau diogelwch yn y cartref.
Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg	Mae'r adroddiad yn nodi bylchau o ran monitro nodweddion gwarchodedig a dangosyddion economaidd-gymdeithasol. Bydd camau yn cael eu cymryd i wella cynhwysiant a darparu gwasanaethau dwyieithog.
Risgiau	Risg o fethu unigolion risg uchel oherwydd bylchau yn y data neu arferion atgyfeirio anghyson. Risg o ganlyniadau anghyfartal ar gyfer aelwydydd tebyg oherwydd y trothwyon targedu ar hyn o bryd. Risg o leihau effaith gwaith atal os nad yw pwysau ariannu yn cael eu lliniaru.

Archwilio Cymru
Audit Wales

Diffodd tanau'r dyfodol

Atal yn Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru

Gorffennaf 2025

Amdanom ni

Rydym wedi paratoi a chyhoeddi o dan adran 17 (2) (d) Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004. Gallai hefyd hysbysu adrodd o dan adran 15 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2025

Cewch ailddefnyddio'r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys logos ac eithrio fel rhan annatod o'r ddogfen) am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng.

Os byddwch yn ei ailddefnyddio, mae'n rhaid i'ch ailddefnydd fod yn gywir ac mae'n rhaid nad yw mewn cyd-destun camarweiniol. Mae'n rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru ac mae'n rhaid i chi roi teitl y cyhoeddiad hwn. Lle'r ydym wedi nodi unrhyw ddeunydd hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan y deiliaid hawlfraint dan sylw cyn ailddefnyddio.

Os ydych angen unrhyw gymorth gyda'r ddogfen hon

Os hoffech ragor o wybodaeth, neu os byddwch angen unrhyw un o'n cyhoeddiadau mewn fformat neu iaith amgen:

- ffoniwch ni ar 029 2032 0500
- anfonwch e-bost atom yn post@archwilio.cymru

Gallwch ddefnyddio'r Gymraeg neu'r Saesneg pan fyddwch yn cysylltu â ni – byddwn yn ymateb i chi yn yr iaith yr ydych yn ei defnyddio.

Ni fydd gohebu yn y Gymraeg yn arwain at oedi.

This document is also available in English.

Mae Archwilio Cymru yn dilyn y safonau archwilio perfformiad rhyngwladol a gyhoeddir gan Sefydliad Rhyngwladol y Sefydliadau Archwilio Goruchaf (INTOSAI).

Cynnwys

Cipolwg ar yr archwiliad	4
Ffeithiau a ffigurau allweddol	6
Ein canfyddiadau	7
Argymhellion	15
1 Ynglŷn â'n gwaith	18
Amdanom ni	20

Cipolwg ar yr archwiliad

Yr hyn y gwnaethom edrych arno

1 Fe wnaethom edrych ar y dull a fabwysiadwyd gan Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) i dargedu ei waith atal tân. Fe wnaethom ganolbwyntio ar dargedu'r bobl fwyaf agored i niwed i helpu i leihau tanau a lleihau anafiadau difrifol neu farwolaeth.

2 Ceir sawl dull i waith atal gan yr Awdurdod. Fe wnaethom ganolbwyntio ein gwaith ar edrych sut mae'r Awdurdod yn gweithio gydag aelwydydd unigol. Ni wnaethom ganolbwyntio ar waith atal arall, fel addysg ieuenctid neu leihau tanau gwyllt. Ni wnaethom edrych ar atal chwaith i leihau gweithgarwch achub yr Awdurdod, fel gweithgarwch diogelwch ar y ffyrdd.

Pam mae hyn yn bwysig

3 Mae atal yn hanfodol bwysig oherwydd bod ganddo'r potensial i achub bywydau ac atal anafiadau difrifol rhag digwydd. Mae ganddo'r fantais hefyd o osgoi difrod i gartrefi pobl a'r tarfu a achosir gan golli eiddo. Gall hyn arwain at fanteision i unigolion, teuluoedd, a chymunedau ehangach.

4 Gall targedu ymdrechion at y bobl fwyaf agored i niwed hefyd fod yn arwydd bod yr Awdurdod yn sicrhau gwerth da am arian. Mae hyn oherwydd bod adnoddau cyfyngedig yr Awdurdod yn cael eu canolbwyntio ar y risgiau cymunedol mwyaf.

5 Gellir cysylltu bod yn agored i niwed â ffurfiau amrywiol o anfantais hefyd. Mae targedu ymdrechion at bobl agored i niwed yn helpu i ddangos bod yr awdurdod yn gweithredu yn unol â'r dyletswyddau cyfreithiol sydd arno o ran cydraddoldeb. Mae atal hefyd yn un o'r bum ffordd o weithio i helpu'r Awdurdod ddangos ei fod yn gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy.

Yr hyn yr ydym wedi ei ganfod

6 Mae gan yr Awdurdod ddull sylfaenol da o ymdrin â'i waith atal tân wedi'i dargedu. Mae hyn yn cynnwys rhai meysydd o arferion addawol. Fodd bynnag, gallai wneud mwy i sicrhau ei fod yn targedu ei adnoddau fel eu bod wedi'u canolbwyntio lle mae eu hangen fwyaf bob amser.

Yr hyn yr ydym yn ei argymell

7 Rydym wedi gwneud dau argymhelliad i gynorthwyo'r Awdurdod i wella ei ddull. Mae hyn yn cynnwys asesu lle y gallai bylchau fodoli yn null presennol yr Awdurdod a chynllunio i fynd i'r afael â'r bylchau hyn. Rydym hefyd yn argymell bod yr Awdurdod yn cryfhau ei ddealltwriaeth o'r gwerth a sicrheir gan ei weithgareddau atal i helpu i dargedu camau ymhellach i gael yr effaith fwyaf.

Ffeithiau a ffigurau allweddol

- 33% – y gostyngiad i danau annedd rhwng 2009-10 a 2023-24
- 43% – y gostyngiad i farwolaethau ac anafusion mewn tanau o 2009-10 a 2023-24
- saith – nifer y ffactorau risg a ddefnyddir gan yr Awdurdod i nodi pobl sydd yn y perygl mwyaf
- pump neu fwy – nifer y ffactorau risg sydd eu hangen ar aelwyd i gael ei ddosbarthu'n uchel ei risg
- 29.4% – cyfran yr ymweliadau diogelwch cartref a gwblhawyd ar aelwydydd risg uwch yn ystod naw mis cyntaf 2024-25

Ein canfyddiadau

Mae gan yr Awdurdod ddealltwriaeth resymol o bwy sydd mewn perygl uchel o dân, ond gallai wneud mwy i sicrhau nad oes neb yn cael ei fethu

8 I nodi pobl mewn perygl, mae angen i Awdurdodau Tân ac Achub ddeall dwy elfen. Yn gyntaf, y ffactorau sy'n debygol o wneud pobl i fod mewn perygl uwch o dân. Yn ail, sut i nodi'r unigolion sy'n cael profiad o'r ffactorau hyn. Mae deall y ddau yn allweddol i weithgareddau targedu Awdurdodau Tân ac Achub, fel ymweliadau diogelwch cartref, at y rhai sydd eu hangen fwyaf.

9 Mae'r Awdurdod wedi cymryd sawl cam allweddol i'w helpu i ddeall pa bobl sydd mewn perygl uwch. Mae'n manteisio ar amrywiaeth o ffynonellau i wneud hyn. Mae'r Awdurdod yn cyfuno'r ffynonellau hyn i nodi aelwydydd a lleihau bylchau posibl rhwng y gwahanol ffynonellau. Mae'n manteisio ar:

- ddata o danau blaenorol;
- atgyfeiriadau gan 69 o bartner asiantaethau;
- atgyfeiriadau gan y cyhoedd a chriwiau tân lleol; a
- data gan y GIG.

10 Mae defnydd yr Awdurdod o ddata GIG yn arbennig o addawol. Mae'r Awdurdod wedi datblygu map i ddangos lle mae aelwydydd â ffactorau risg uchel wedi'u lleoli. Mae'n cofnodi wedyn lle mae ymweliad wedi cael ei gynnal, fel y gall defnyddwyr weld yn amlwg lle mae swyddogion wedi ymweld â thŷ uchel ei risg. Mae'n bwriadu gwella hyn ymhellach drwy ychwanegu data o ddigwyddiadau gwirioneddol. Gallai hyn helpu'r Awdurdod i ddeall pa un a yw ei waith atal yn cyflawni ei nodau.

11 Fodd bynnag, gall pob ffynhonnell ddata fod â'i chyfyngiadau. Gall data GIG fod yn anghyflawn weithiau. Mae hyn yn golygu ei bod yn bwysig i'r Awdurdod wirio gyda ffynonellau eraill i helpu i nodi aelwydydd risg uwch.

12 Yn yr un modd, nid yw data o danau blaenorol bob amser yn ganllaw cyflawn i risg yn y dyfodol. Er enghraifft, gallai grŵp poblogaeth fod mewn perygl uwch o ddioddef tân heb gael ei ddangos yn y data yn eglur oherwydd poblogaeth fach yn lleol. Nid yw data o'r gorffennol yn ffynhonnell dda o wybodaeth am risgiau sydd ddim ond newydd ddod i'r amlwg chwaith.

13 Efallai nad yw data yn nodi mathau penodol o risg chwaith. Er enghraifft, mae'n hysbys bod pobl a oedd yn byw mewn sefyllfaoedd ynysig mewn perygl uwch o dân. Byddai hyn yn cynnwys pobl nad ydynt yn defnyddio gwasanaethau cyhoeddus ac felly na fyddai'n cael eu dangos yn y data. Gallai hefyd olygu eu bod yn llai tebygol o gael eu hatgyfeirio i'r Awdurdod. Mae hwn yn fwlch posibl mewn unrhyw ddull i ddod o hyd i bobl sy'n wynebu lefelau uwch o risg.

14 Mae'r Awdurdod wedi cydnabod rhai o'r bylchau a'r heriau posibl y mae'n eu hwynebu yn ei ddull. Mae'n cymryd camau i fynd i'r afael â nhw. Fodd bynnag, nid oes ganddo ddull systematig cyflawn o wneud hyn.

15 Hefyd, mae'r broses ar gyfer penderfynu pa un a yw pobl mewn perygl uchel yn cynnwys dyfarniadau sylweddol. Mae partner asiantaethau yn chwarae rhan bwysig o ran gwneud y dyfarniadau hyn. Gall atgyfeiriadau fod â manteision ac anfanteision, y mae swyddogion wedi dangos eu bod yn ymwybodol ohonynt. Eu prif fantais yw manteision ar wybodaeth partneriaid am y gymuned. Anfantais bosibl yw efallai na fydd partneriaid yn gwneud atgyfeiriad, gan arwain at fethu unigolyn risg uwch. I helpu gyda hyn, mae'r Awdurdod wedi rhoi hyfforddiant i bartneriaid ar sut i wneud atgyfeiriadau da. Mae hyn yn cynnwys canllawiau ar yr hyn sy'n aelwyd risg uwch neu is ac ar gwblhau ffurflenni yn gywir. Mae hyn yn helpu'r Awdurdod i sicrhau ansawdd yr atgyfeiriadau y mae'n eu derbyn.

16 Mae'r Awdurdod wedi cymryd camau i gynnwys grwpiau. Er enghraifft, tra roedd yn datblygu ei Gynllun Rheoli Risg Cymunedol. Fodd bynnag, roedd yr ymgynghoriad yn cwmpasu materion cyffredinol yn unig. Nid oedd yn edrych ar y newidiadau penodol y gallai'r Awdurdod eu gwneud i wneud ei waith yn fwy cynhwysol. Mae cyfranogiad cymunedol gan yr Awdurdod yn helpu i sicrhau dealltwriaeth fwy cyflawn o'r ardal a'i risgiau. Gallai cynnwys pobl â nodweddion gwarchodedig helpu i ddod o hyd i ffactorau risg nad ydynt yn hysbys ar hyn o bryd sy'n rhoi pobl mewn mwy o berygl. Gall cyfranogiad hefyd helpu'r Awdurdod i sicrhau bod ei ymweliadau diogelwch cartref yn gynhwysol yn eu darpariaeth.

Mae gan yr Awdurdod ddull eglur o dargedu risg, ond dylai wirio ar gyfer canlyniadau na fwriadwyd

17 Mae'r Awdurdod yn gwneud ymdrech systematig i dargedu ei waith atal at y rhai sy'n wynebu'r perygl mwyaf o dân. Mae'n asesu lefel y risg sy'n cael ei pheri gan bob aelwyd ac yn mesur eu lefel risg. Yn gyffredinol, mae'r Awdurdod yn rhoi ymateb cyflymach a mwy arbenigol i'r aelwydydd risg uchaf. Mae blaenoriaethu yn ôl risg yn helpu i sicrhau bod pobl sydd mewn mwy o berygl o dân yn cael cymorth cyn i ddigwyddiadau godi.

18 Mae'r Awdurdod yn ailadrodd ymweliadau diogelwch cartref ag aelwydydd risg uwch i barhau i fonitro eu risg. Mae'n ail-ymgysylltu ag aelwydydd risg uwch tua un i dair blynedd ar ôl eu hymweliad diogelwch cartref cychwynnol. Mae hyn yn addawol am sawl rheswm. Mae llawer o'r ffactorau sy'n cynyddu'r perygl o dân ymhlith pobl, fel oedran neu eiddilwch, yn debygol o waethygu dros amser. Ar yr un pryd, bydd manteision posibl yr ymweliad cychwynnol yn lleihau, fel cyngor yn cael ei anghofio neu offer yn torri. Mae ailadrodd ymweliadau yn helpu i ategu dull yr Awdurdod o leihau risg a thargedu'r rhai sydd mewn angen fwyaf.

19 Fodd bynnag, nid yw'n eglur bod yr Awdurdod wedi asesu pa un a yw ei dargedu o weithgarwch bob amser yn cyd-fynd â'i barodrwydd i dderbyn risg. Bu'n rhaid i'r Awdurdod wneud penderfyniadau anodd am:

- Pa ffactorau risg i ganolbwyntio arnynt?
- Pa ffactorau risg i'w diystyru?

- Sut i rannu cartrefi rhwng risg isel, ganolig, ac uchel?
- Pwy sy'n gymwys i dderbyn pa offer?

20 Mae'n bwysig i'r Awdurdod fod yn hyderus nad yw ei ddull yn amlygu unrhyw aelwydydd y lefel o risg y mae'n ei ystyried yn annerbyniol. Mae hyn yn arbennig o bwysig gan y gall newidiadau bach wneud gwahaniaeth i'r ymateb gan yr Awdurdod. Er enghraifft, gallai'r gwahaniaeth rhwng risgiau uchel a chanolig newid ar sail rhywbeth bach, fel pen-blwydd yr wythnos ar ôl asesiad ac nid wythnos ynghynt. Gallai hyn newid yr ymateb a roddir gan yr Awdurdod.

21 Gallai dull yr Awdurdod arwain at wahanol ganlyniadau i aelwydydd â nodweddion tebyg. Er enghraifft:

- Pan fo'r Awdurdod yn ailadrodd ymweliadau ag aelwydydd, mae'n cynnwys y rhai a aseswyd yn risg uwch yn wreiddiol yn unig. Gallai hyn olygu y gallai aelwydydd y mae eu risg wedi cynyddu ond na chawsant eu hasesu'n risg uwch yn wreiddiol gael eu methu. Mae hyn er gwaethaf y ffaith fod ganddynt yn union yr un faint o angen.
- Mae dull targedu'r Awdurdod yn wahanol rhwng atgyfeiriadau a data GIG. Byddai unigolyn 75 mlwydd oed heb unrhyw ffactorau risg wedi'u nodi mewn data yn gymwys ar gyfer ymweliad gan griw tân, ond byddai unigolyn 75 mlwydd oed ag un neu ddau o ffactorau risg wedi'u nodi o atgyfeiriad yn gymwys ar gyfer galwad ffôn fel rheol.

Mae'r awdurdod yn ymdrechu i roi ei ddull atal ar waith ac wedi cymryd camau addawol

22 Mae'r Awdurdod yn cymryd sawl cam i geisio sicrhau bod ei swyddogion yn cynnal archwiliadau diogelwch cartref o ansawdd uchel. Mae swyddogion arbenigol yn ymweld ag aelwydydd risg uwch. Maent wedi'u hyfforddi ac yn destun archwiliadau sicrhau ansawdd dwywaith y flwyddyn. Mae criwiau tân yn ymweld ag aelwydydd risg ganolig ac is. Mae gwaith criwiau hefyd yn cael ei arsylwi unwaith y flwyddyn gan swyddogion arbenigol. Mae sicrwydd ansawdd yr Awdurdod yn helpu i sicrhau bod pobl mewn perygl yn derbyn cyngor a chymorth allweddol yn gyson.

23 Mae'r Awdurdod yn casglu data ar yr archwiliadau diogelwch cartref y mae'n eu cwblhau. Gellir rhannu'r rhan yn aelwydydd risg uwch, ganolig, ac is. Yn ystod naw mis cyntaf 2024-25, roedd 29.4% o archwiliadau diogelwch cartref a gwblhawyd gan yr Awdurdod yn risg uwch.[1] Efallai fod hyn yn ymddangos yn isel, ond mae oherwydd y trothwy y mae'r Awdurdod wedi ei bennu ar gyfer ei ddiffiniad ei hun o aelwyd risg uwch. Pe bai'r Awdurdod yn cynnwys aelwydydd â thri neu bedwar ffactor risg yn ei gategori risg uwch, byddai cyfran yr archwiliadau diogelwch cartref risg uwch yn cynyddu i 46%. Nid dyma fyddai'r rhan fwyaf o'i weithgarwch o hyd, sy'n golygu y gallai'r Awdurdod dargedu ei adnoddau mwy. Awgrymir yn ymhellach gan y gostyngiad canrannol i ymweliadau diogelwch cartref o'i chymharu â'r flwyddyn gynt.

Gallai dealltwriaeth gryfach o werth am arian helpu'r Awdurdod i wneud dewisiadau gwario

24 Mae heriau ariannu sector cyhoeddus wedi golygu penderfyniadau anodd ar draws y sector. Ariannwyd offer diogelwch cartref gan grantiau a ddyfarnwyd i dri Awdurdod Tân ac Achub Cymru. Yn 2023-24, derbyniodd yr Awdurdod £240,000 i brynu offer. Ariennir gweithgarwch atal arall gan gyllideb yr Awdurdod, wedi'i hariannu gan ei ardoll ar gynghorau.

25 Yn y blynyddoedd diwethaf, mae'r Awdurdod wedi wynebu pwysau newydd o ran cyllid ar gyfer ei waith atal. Mae hyn wedi cynnwys colli grant Llywodraeth Cymru ar gyfer lleihau tanau bwriadol, a oedd yn cynorthwyo gwaith atal. Bu cynnydd i brisiau'r offer diogelwch cartref y mae'r Awdurdod yn ei ddarparu yn ystod ei ymweliadau hefyd. I liniaru'r heriau hyn, mae angen i'r Awdurdod fod yn eglur ynghylch pa weithgarwch y mae'n hanfodol ei ariannu o'i adnoddau ei hun.

[1] Yr asesiad o risg isel, canolig, ac uwch yw'r un a ddiffinnir ac a asesir gan yr Awdurdod. O ganlyniad, ni ddylid cymharu'r data hyn â data o Awdurdodau Tân ac Achub eraill sydd efallai'n defnyddio gwahanol ddiffiniadau.

26 Mae'r Awdurdod wedi addasu ei ddull o gael atgyfeiriadau newydd i sicrhau bod modd parhau i reoli ei lwyth gwaith yn y cyd-destun heriol hwn. Mae'r Awdurdod wedi atgyfnerthu ei neges i bartneriaid y dylent ganolbwyntio ar wneud atgyfeiriadau risg uwch. Mae wedi lleihau cyflymder ei ymdrechion i gynhyrchu atgyfeiriadau newydd eraill. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i'r Awdurdod oddef rhywfaint o risg ychwanegol, gan fod atgyfeiriadau yn ffordd allweddol y mae'r Awdurdod yn sicrhau ei hun nad yw'n methu pobl risg uwch.

27 Ni fu'n rhaid i'r Awdurdod roi'r gorau i ddarparu offer diogelwch cartref oherwydd ei bwysau ariannu eto. Yn hytrach, mae wedi blaenoriaethu ei waith. Mae'r Awdurdod yn ystyried pa un a bydd yn rhaid iddo roi'r gorau i ddarparu larymau carbon monocsid heb gyllid ychwanegol. Mae'n archwilio partneriaethau posibl i ariannu offer yn y dyfodol, ond nid ydynt wedi'u cadarnhau. Daw pob math o gyllid allanol gyda risg y gallai ddod i ben neu leihau mewn gwerth. I liniaru'r risg hon, mae angen i'r Awdurdod fod yn eglur ynghylch pa weithgarwch sy'n hanfodol ei ariannu o'i adnoddau ei hun.

28 Wrth wneud penderfyniadau anodd yn y cyd-destun hwn, mae angen i'r Awdurdod asesu gwerth ei weithgarwch. Gallai hyn fod, er enghraifft, drwy nodi'r risgiau ychwanegol a wynebir gan bobl risg uwch heb ymweliad diogelwch cartref. Byddai hyn yn helpu'r Awdurdod i ddeall y gost o'i chymharu â budd unrhyw arbedion arfaethedig. Byddai hefyd yn hysbysu dewisiadau gan yr Awdurdod am gyfanswm cyfran ei adnoddau y mae'n eu neilltuo i atal. Gallai hyn gynnwys ystyried gwahanol ffyrdd o atal tanau o'u cymharu â'i ddull presennol. Oherwydd nad oes gan yr Awdurdod ddull i wneud hyn eto, ni all ddangos yn llawn sut mae'n ystyried gwerth am arian wrth neilltuo adnoddau ar gyfer atal.

Mae anafusion tân wedi lleihau ond mae angen i'r Awdurdod fod yn eglur ynghylch y gweithgarwch atal sy'n gweithio

29 Mae'r Awdurdod wedi rhoi'r rhannau allweddol o'i system i fonitro ac adrodd ar ei waith atal ar waith. Mae monitro ac adrodd yn allweddol gan eu bod yn helpu'r Awdurdod i ddeall beth sy'n gweithio a'r hyn y mae angen ei newid. Mae gan yr Awdurdod ddangosfwrdd perfformiad sy'n cynnwys gwybodaeth fanwl am yr archwiliadau diogelwch cartref a gwblhawyd a digwyddiadau tân. Mae data hyn hefyd wedi'u cynnwys mewn adroddiadau tri misol i arweinwyr uwch a'r Awdurdod Tân. Mae proses hefyd ar waith i adrodd canfyddiadau o unrhyw ddigwyddiadau angheuol i gynorthwyo dysgu.

30 Gallai'r Awdurdod adeiladu ar hyn ymhellach i helpu i hysbysu ei ddull. Gallai hyn gynnwys data cydraddoldeb. Ni all yr Awdurdod adolygu'r aelwydydd y mae wedi ymweld â nhw yn ôl nodweddion gwarchodedig neu ddangosyddion economaidd-gymdeithasol ar hyn o bryd. Mae hyn yn ei gwneud yn anoddach i'r Awdurdod fonitro risgiau sy'n gysylltiedig â rhai cymunedau. Mae hefyd yn ei gwneud yn anoddach iddo ddangos ei fod yn gweithredu yn unol â Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus a'r Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol.

31 Mae'r Awdurdod yn gosod targedau ac yn cofnodi amseroedd ar gyfer cwblhau archwiliadau diogelwch cartref. Mae hyn yn golygu bod gan yr Awdurdod dystiolaeth o faint o amser y mae'n ei gymryd i achosion ddatblygu a chyrraedd canlyniad. Gallai hyn fod yn ddefnyddiol i fonitro a chynllunio gweithgarwch. Fodd bynnag, gallai targedau amser hefyd atal swyddogion rhag treulio mwy o amser ar achosion mwy cymhleth.

32 Gallai'r Awdurdod hefyd wneud mwy o ddefnydd o'i ddata digwyddiadau, gan gynnwys achosion y bu ond y dim iddynt ddigwydd. Gall data digwyddiadau roi gwybodaeth nid yn unig am bwy allai fod mewn perygl, ond hefyd am ffyrdd o gryfhau'r broses archwiliadau diogelwch cartref. Canfuwyd rhai enghreifftiau gennym lle'r oedd yr Awdurdod wedi addasu'r broses mewn ymateb i wersi neu ddigwyddiadau. Gallai wneud y broses ddysgu hon yn fwy systematig. Yn benodol, mae'n bwysig gwirio a ellir dysgu unrhyw wersi o achosion lle mae archwiliad diogelwch cartref wedi cael ei gynnal, ond mae digwyddiad yn dal i godi.

33 Nid yw craffu gan yr Awdurdod wedi cefnogi dysgu. Mae Cynghorwyr wedi gofyn cwestiynau i swyddogion am y dull a ddefnyddiwyd tuag at atal. Fodd bynnag, mae hyn wedi bod yn gyfyngedig. Gall craffu gan rai nad ydynt yn swyddogion helpu i gynnig gwahanol safbwynt ar weithgarwch a helpu i nodi gwelliannau i gynorthwyo i sicrhau gwerth am arian.

34 Nid oes gan yr Awdurdod ddealltwriaeth fanwl o sut mae ei weithgarwch yn helpu i atal tanau rhag digwydd. Mae tanau annedd ac anafusion wedi gostwng yn sylweddol ers 2009-10. Fodd bynnag, nid yw'r Awdurdod yn eglur ynghylch sut y mae ei weithgarwch wedi cyfrannu at hyn. Mae mesur effaith atal pan nad yw digwyddiad wedi digwydd yn amlwg yn eithriadol o anodd. Mae Cyngor Cenedlaethol y Penaethiaid Tân wedi cyflawni asesiad o fanteision gwaith atal draw yn Lloegr.[2] Amcangyfrifodd bod gan archwiliadau diogelwch cartref enillion gros o fuddsoddiad o 267% am bob punt a wariwyd rhwng 2016 a 2019. Ni chwblhawyd unrhyw ddadansoddiad cymharol diweddar ar lefel Cymru neu Awdurdod.

[2] Cyngor Cenedlaethol y Penaethiaid Tân, *Economic and Social Value of the UKFRS*, Gorffennaf 2023

Argymhellion

A1 Canfuwyd risgiau gennym o ran sut mae'r Awdurdod yn nodi pobl â pherygl uwch o dân. Rydym yn argymell y dylai'r Awdurdod asesu lle allai fod ganddo fylchau yn ei ddull a dylai fynd i'r afael â'r bylchau hyn i sicrhau bod ei gamau yn targedu pobl â'r risg uchaf. Wrth wneud hyn, dylai'r Awdurdod:

1.1 Chwilio'n rheolaidd am risgiau y tu allan i ddata digwyddiadau'r gorffennol.

1.2 Treialu dulliau o nodi pobl â risg uwch o dân sydd mewn sefyllfaoedd ynysig a mabwysiadu unrhyw ddulliau effeithiol. Dylai hyn gynnwys defnyddio data.

1.3 Cynnwys cymunedau â nodweddion gwarchodedig i sicrhau dull cynhwysol.

1.4 Ychwanegu camau sicrhau ansawdd i leihau'r perygl na fydd partneriaid yn atgyfeirio pobl â risg uwch o dân.

1.5 Cymharu'r partneriaid y mae'n gweithio â nhw ag Awdurdodau Tân ac Achub eraill i sicrhau cyflawnrwydd ei ddull.

A2 Canfuwyd gennym fod yr Awdurdod angen cryfhau ei ddealltwriaeth o'r gwerth a ychwanegir gan ei weithgarwch atal. Mae hyn er mwyn cefnogi'n fwy eglur y gwaith o dargedu adnoddau i ddangos y gwerth am arian sy'n cael ei sicrhau. I wneud hyn, dylai'r Awdurdod:

2.1 Ddatblygu ffyrdd o asesu cyfraniad gweithgarwch atal at leihau tanau, marwolaethau tân, ac anafiadau difrifol – yn enwedig i'r rhai sydd mewn perygl uwch o dân.

2.2 Datblygu dull strwythuredig o asesu costau, manteision a risgiau ei ddull ac opsiynau amgen. Dylai hyn adlewyrchu parodrwydd i dderbyn risg a dyletswyddau cydraddoldeb yr Awdurdod.

2.3 Defnyddio ei ddull strwythuredig i adolygu ei ddiffiniadau o achosion risg isel, canolig, ac uchel ar adnoddau a ddyrennir.

2.4 Cydweithio ag Awdurdodau Tân ac Achub eraill Cymru i sefydlu diffiniadau cyffredin i alluogi cymariaethau a dysgu rhwng Awdurdodau. Dylai hyn hefyd ystyried safbwyntiau Llywodraeth Cymru.

Atodiadau

1 Ynglŷn â'n gwaith

Cwmpas yr archwiliad

Fe wnaethom edrych ar y dull a fabwysiadwyd gan yr Awdurdod i dargedu ei waith atal tân. Fe wnaethom ganolbwyntio ar dargedu'r bobl fwyaf agored i niwed i helpu i leihau tanau a lleihau anafiadau difrifol neu farwolaeth. Fe wnaethom ganolbwyntio ein gwaith ar edrych sut mae'r Awdurdod yn gweithio gydag aelwydydd unigol.

Ni wnaethom ganolbwyntio ar waith atal arall, fel addysg ieuenctid neu leihau tanau gwyllt. Ni wnaethom edrych ar atal chwaith i leihau gweithgarwch achub yr Awdurdod, fel gweithgarwch diogelwch ar y ffyrdd.

Cwestiynau a meini prawf archwilio

Cwestiynau

I ddeall dull yr Awdurdod, fe wnaethom edrych ar:

- dealltwriaeth yr Awdurdod o bwy sydd mewn perygl o dân;
- eglurder polisi a dull yr Awdurdod;
- y partneriaid y mae'r Awdurdod yn gweithio â nhw i atal tanau;
- yr adnoddau a ddefnyddir gan yr Awdurdod i atal tanau; a'r
- gwerthusiad gan yr Awdurdod o'i weithgarwch.

Meini prawf

Hysbyswyd yr hyn y gwnaethom chwilio amdano gan amrywiaeth o ffynonellau. Roedd hyn yn cynnwys y Fframwaith Cenedlaethol Tân ac Achub a chanllawiau a gyhoeddwyd gan Gyngor Cenedlaethol y Penaethiaid Tân. Fe wnaethom hefyd ddefnyddio ein gwybodaeth am Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) i ddeall sut roedd yr Awdurdod yn dangos ei fod yn gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy.

Dulliau

Roedd ein dulliau yn cynnwys:

- Dadansoddi data – fe wnaethom ddadansoddi data a ddarparwyd gan yr Awdurdod ac a oedd ar gael gan Lywodraeth Cymru o ran gwaith atal.
- Adolygu dogfennau – fe wnaethom ddarllen dogfennau a ddarparwyd gan yr Awdurdod mewn ymateb i'n cwestiynau archwilio. Roedd hyn hefyd yn cynnwys cynlluniau a dogfennau grant ar gyfer pob un o dri Awdurdod Tân ac Achub Cymru, yn ogystal â chanllawiau cenedlaethol.
- Cyfweliadau – fe wnaethom gyfweld pum swyddog o'r Awdurdod sy'n rhan o gyflawni gweithgarwch atal.

Amdanom ni

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru a'r Senedd. Swyddogaeth yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilio ac adrodd ar gyfrifon Llywodraeth Cymru, y GIG yng Nghymru a chyrff cyhoeddus cysylltiedig eraill, ynghyd â rhai cynghorau a chyrff llywodraeth leol eraill. Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn adrodd ar ddefnydd y sefydliadau hyn o adnoddau ac yn awgrymu ffyrdd y gallant wella.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn cyflawni ei waith gyda chymorth staff ac adnoddau eraill o Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n gorff a sefydlwyd i gefnogi, cynghori a monitro gwaith yr Archwilydd Cyffredinol.

Archwilio Cymru yw'r term ambarél a ddefnyddir ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru. Mae'r rhain yn endidau cyfreithiol ar wahân â'r swyddogaethau penodol a amlinellir uchod. Nid yw Archwilio Cymru ei hun yn endid cyfreithiol.



Archwilio Cymru

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.